# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD LLUN, 26AIN MEHEFIN, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

*(Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)*

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 19/06/23)

# PWYLLGOR SAFONAU

## AELODAETH

## Aelodau Etholedig (3)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd-Jones
Beth Lawton
Dewi Owen

## Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)

Aled Jones
David Wareing
Hywel Eifion Jones
Mark Jones
[sedd wag]

## Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)

Richard Parry Hughes

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 15

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y dyddiadau a nodir isod fel rhai cywir:-

- 13 Chwefror, 2023;
- 18 Ebrill, 2023 (Cyfarfod Arbennig)

**5. ADRODDIAD AR GANLYNIAD YMCHWILIAD I GWYN YN ERBYN Y CYNGHORYDD LOUISE HUGHES O GYNGOR GWYNEDD** 16 - 22

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau.

**6. ADOLYGIAD O'R FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL I GYMRU - YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU** 23 - 69

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

**7. HUNAN ASESIAD A RHAGLEN WAITH** 70 - 76

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2022-23** 77 - 96

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau.

**9. HONIADAU YN ERBYN AELODAU** 97 - 98

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau.

# PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 13 CHWEFROR 2023

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Beth Lawton a Dewi Owen.

**Aelodau Annibynnol:** Mr Aled Jones, Mr Hywel Eifion Jones (Cadeirydd) a Mr Dave Wareing.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:** Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Gan fod 4 aelod etholedig a 3 aelod annibynnol yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod, cytunodd y Cynghorydd Dewi Owen i arsylwi'n unig, er mwyn sicrhau cworwm.

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol Mr Hywel Eifion Jones yn gadeirydd y pwyllgor hwn.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol Mr Aled Jones yn is-gadeirydd y pwyllgor hwn.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Mr Mark Jones.

Gofynnodd y Cadeirydd beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf o ran y sedd wag ar y pwyllgor. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro yr hysbysebwyd sawl tro am ymgeiswyr, ac y bwriedid adolygu'r sefyllfa. Nododd hefyd ei fod yn erfyn ar yr aelodau i gyflwyno enwau unrhyw unigolion allai fod â diddordeb yn y rôl.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Holodd y Cadeirydd a ddylai ddatgan buddiant yn eitem 10 gan ei fod yn aelod o Banel Dyfarnu Cymru. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro nad oedd buddiant yn yr achos hwn, gan mai'r adroddiad blynyddol oedd gerbron, a bod y Panel yn gorff cyhoeddus arall beth bynnag.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd, 2022 fel rhai cywir.

**7. CYNLLUN GWEITHREDU AR SAIL YMGYNGHORIAD Y PWYLLGOR SAFONAU GYDA DETHOLIAD O GLERCOD CYNGHORAU CYMUNED**

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau yn gwahodd y pwyllgor i gymeradwyo cynllun gweithredu i gyfarch y materion a godwyd yn Adroddiad y Cyn-gadeirydd a'r Aelod Pwyllgor Cymunedol yn dilyn eu hymgynghoriad gyda detholiad o glercod ynglŷn â'r fframwaith moesegol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyn-gadeirydd a'r Aelod Pwyllgor Cymunedol am yr holl waith oedd wedi mynd ymlaen yn y cefndir.

Gwahoddwyd yr Aelod Pwyllgor Cymunedol i gyflwyno ei sylwadau ar y cynllun gweithredu. Nododd:-

- Ei fod yn croesawu'r adroddiad, a bod yma ddealltwriaeth o beth yw dyletswydd y Cyngor Sir a'r Pwyllgor Safonau, ac mai dyletswydd y pwyllgor yw edrych ar ôl, a cheisio codi, safonau yn y cynghorau cymuned.
- Ei fod yn cytuno ag argymhellion yr adroddiad, ond y dymunai ychwanegu bod llythyr yn cael ei anfon at yr holl gynghorau tref a chymuned yn nodi penderfyniad y pwyllgor fel bod y clercod a'r cadeiryddion yn gwybod bod modd iddynt gysylltu ag Adran Gyfreithiol y Cyngor Sir i gael cyngor ar faterion penodol.
- Y byddai'r hyfforddiant rhithiol ar ffurf 'webinar' yn ein hamddiffyn os yw pobl yn honni nad ydynt wedi cael y cyfle i gael hyfforddiant. Gan hynny, roedd yn bwysig iawn bod yr hyfforddiant yma'n cael ei gynnig.
- Bod y materion eraill a godwyd yn faterion gweinyddol i'r Cyngor Sir eu hystyried, ac yn gwbl ar wahân i waith y Pwyllgor Safonau.

Mewn ymateb i sylwadau'r Aelod Pwyllgor Cymunedol, nododd y Swyddog Monitro:-

- Bod y clercod eisoes yn cysylltu â'r Adran Gyfreithiol i gael cyngor ar faterion penodol.
- Ei fod wedi pasio'r adroddiad i sylw'r Gwasanaethau Corfforaethol fel bod yna ymwybyddiaeth o'r materion a godwyd o ran sut mae'r Cyngor yn ymateb yn gyffredinol i ymholiadau.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, codwyd y materion a ganlyn:-

- Awgrymwyd, unwaith y bydd y sesiwn hyfforddiant rhithiol ar gael ar wefan y Cyngor, y gellid gofyn i Unllais Cymru ofyn i bob cyngor tref a chymuned ei gynnwys fel eitem yn eu cyfarfod blynyddol nesaf, fel bod pawb yn ei weld. Awgrymwyd hefyd y byddai tua 20 munud o hyfforddiant yn ddigonol. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro y byddai'r hyfforddiant tuag awr o hyd, ac yn cyfleu'r prif bwyntiau o ran y Cod Ymddygiad. Nododd hefyd, unwaith y byddai'r hyfforddiant ar y wefan, y byddai modd i gynghorau ei ddefnyddio, boed hynny cyn, neu yn ystod, cyfarfod o'r Cyngor pan fo pawb gyda'i gilydd.
- Awgrymwyd na fyddai angen i'r cynghorau cymuned a thref gynnwys yr hyfforddiant yn flynyddol ac efallai y byddai unwaith ar ôl pob etholiad yn ddigonol, heblaw bod yna aelodau newydd yn ymuno â'r cyngor. O ran cael y neges yma drosodd i'r cadeiryddion a'r clercod, awgrymwyd bod hynny'n cael ei gynnwys yn y llythyr fydd yn cael ei yrru allan, ar gais yr Aelod Pwyllgor Cymunedol, yn nodi penderfyniad y pwyllgor hwn.
- Nodwyd mai'r broblem fwyaf yw datgan buddiant, ac nad yw pobl yn deall bod angen iddynt adael y cyfarfod pan drafodir mater mae ganddynt fuddiant ynddo. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro fod y drefn datgan buddiant yn gymhleth oherwydd ei bod yn ceisio paratoi ar gyfer pob posibilrwydd. Yn gyffredinol, roedd y prif faterion y deuir ar eu traws wrth ddatgan buddiant yn gymharol syml, ac roedd taflen fechan ar gael i dywys aelodau drwy'r broses fesul cam. Weithiau roedd yn fater o arfogi'r clerc i fod yn fwy cadarn. Roedd y buddiannau yn fwy astrus ar lefel

cynghorau tref a chymuned, ac efallai mai'r her o ran yr hyfforddiant oedd tynnu'r cymhlethdod allan a'i gadw'n gymharol syml. Anaml iawn y deuir ar draws y materion mwy cymhleth yn y system, ac roedd yn bwysig cael y pethau sylfaenol yn iawn, a phoeni llai am y rhai mwy esoterig.

- Nodwyd y cytunid â'r syniad o gyflwyno'r hyfforddiant fel eitem yng nghyfarfodydd blynyddol y cynghorau, ond awgrymwyd bod awr o gyflwyniad yn rhy faith, ac y byddai negeseuon yn cael eu colli. Yn hytrach, byddai fideo 15-20 munud yn ddigonol, gyda thua awr o hyfforddiant mwy manwl yn cael ei deilwrio ar gyfer y clercod. Awgrymwyd hefyd y byddai'n fuddiol cynnwys 3-4 astudiaeth achos fel ffordd o amlygu'r egwyddorion y tu ôl i ddatgan buddiant ac i gynorthwyo pobl i ganolbwyntio'r meddwl, ond y dylai'r achosion hynny fod yn rhai syml iawn lle mae'r sefyllfaoedd yn amlwg a chlir. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro ei fod yn llwyr ddeall y sylw o ran gwylio awr o fideo, ond bod cywasgu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i awr, gan gynnwys astudiaethau achos, yn gryn her ynddo'i hun. Eglurodd, os oes cŵyn i'r Ombwdsmon, y gofynnir i'r aelod os yw ef/hi wedi derbyn hyfforddiant, a'i bod yn anodd gadael hynny i'r clercod, gan fod yna amrywiaeth o glercod o ran profiad ar draws y sir. Cytunid bod angen cynnwys yr elfen ryngweithiol er mwyn cadw'r hyfforddiant yn fyw ac yn ddiddorol, a bwriedid edrych ar y fformat, gan, o bosib', redeg peilot gerbron y pwyllgor os yw amser a rhaglen waith y pwyllgor yn caniatáu.

**PENDERFYNWYD**
**Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu, sy'n cynnwys y 3 elfen ganlynol o gefnogaeth y gellir ei gynnig i aelodau a chlercod cynghorau cymuned ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad:-**

1. **<u>Cyngor ar faterion penodol</u> - Parhau i gysylltu gyda'r Swyddog Monitro neu'r Dirprwy Swyddog Monitro.**

2. **<u>Gwefan Cyngor Gwynedd</u> - Tudalen Pwyllgor Safonau i gynnwys gwybodaeth a chanllawiau yn ogystal â dolenni i wefannau eraill defnyddiol.**

3. **<u>Hyfforddiant</u> - Cynnal sesiwn hyfforddiant rhithiol ar ffurf 'webinar'.**

## 8. COFRESTR RHODDION A LLETYGARWCH

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn amlygu trafodaethau ynglŷn â chysoni lefel cofrestru rhoddion a lletygarwch rhwng awdurdodau ar lefel genedlaethol, ac yn gwahodd sylwadau'r pwyllgor ar gynnwys yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Awgrymwyd y gallai fod yn amserol i ail-ystyried y penderfyniad blaenorol i beidio cyhoeddi'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch ar wefan y Cyngor. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro y gellid ystyried hynny, a waeth beth fyddai canlyniadau'r trafodaethau ynglŷn â chysoni'r lefel yn genedlaethol, credid bod hyn yn gyfle fel rhan o raglen waith y pwyllgor hwn i adolygu'r polisi a'i ddiweddaru.
- Awgrymwyd bod y lefel o £25 ar gyfer cofrestru rhoddion yn parhau'n rhesymol, a nodwyd bod cynghorwyr yn llawer mwy tebygol o dderbyn negeseuon o ddiolch na rhoddion beth bynnag. Cytunodd y Swyddog Monitro â'r sylw gan nodi fod profiad yn awgrymu ar sail datgan nad oedd llawer o faterion fel hyn yn codi beth bynnag. Awgrymodd ei bod yn briodol ein bod yn rhan o'r drafodaeth i weld oes modd cysoni'r lefel, gan ddod ag argymhelliad yn ôl i'r pwyllgor hwn, ac ymgynghori â'r Cadeirydd wrth i'r drafodaeth ddatblygu. Eglurodd nad oedd yn ofynnol cysoni rhwng awdurdodau, ond petai modd gwneud hynny, byddai'n cyd-fynd i raddau ag

egwyddorion adroddiad Richard Penn o safbwynt cael system fwy cyson ar draws Cymru.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn cynnwys adroddiad a disgwyl adroddiad pellach ar ganlyniad y trafodaethau ynglŷn â chysoni lefel cofrestru rhoddion a lletygarwch rhwng awdurdodau ar lefel genedlaethol.**

## 9. FFORWM GENEDLAETHOL PWYLLGORAU SAFONAU

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ar y materion a godwyd yng nghyfarfod cyntaf y Fforwm Genedlaethol Pwyllgorau Safonau ar 27 Ionawr, 2023.

Nododd y Cadeirydd ei fod yn croesawu sefydliad y Fforwm newydd ac y bydd yn datblygu dros amser i fod yn gyfrwng pwysig i fabwysiadu arferion gorau ledled Cymru. Yna amlygodd rai materion a godwyd, sef:-

- Y byddai ymgynghoriad 12 wythnos yn cychwyn yn fuan ar yr argymhellion yn adroddiad Penn, a'r gobaith oedd y byddai pob pwyllgor safonau yn cael cyfle i ystyried rhain a rhoi adborth.
- O ran y ddyletswydd newydd ar arweinyddion grwpiau gwleidyddol ynglŷn ag ymddygiad eu haelodau, bod Swyddog Monitro Cyngor Sir y Fflint wedi paratoi templed enghreifftiol y gallai arweinyddion ei ddefnyddio i gwblhau adroddiad blynyddol fydd yn bwydo i mewn i adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau, a gofynnodd am farn y Swyddog Monitro ar y templed. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro ei fod yn cefnogi'r syniad o dempled ac yn hapus i edrych ar y ddogfen, ond gan ein bod ym mlwyddyn gyntaf y ddyletswydd newydd yma, o bosib' y byddai'n rhaid gwyro oddi wrth unrhyw dempled ac adeiladu'r adrodd wrth ddysgu o brofiad eleni.
- Holwyd a fyddai'n bosib' addasu'r templed erbyn mis Mehefin pan fydd y Pwyllgor Safonau yn derbyn diweddariad ar weithrediad y Protocol Dyletswydd Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol a'r Pwyllgor Safonau. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro y byddai gweithrediad y ddyletswydd yn rhan o adroddiad blynyddol y pwyllgor, a bwriedid cynnal trafodaethau gyda'r arweinyddion yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf i weld sut mae'r gwaith yn datblygu. Gan y byddai'n ofynnol i'r arweinyddion adrodd i'r Pwyllgor Safonau, y dasg nesaf fyddai cael ffurf yr adroddiad yn barod ar gyfer yr adroddiad blynyddol, a hynny mewn ffordd sy'n cefnogi'r protocol a'r egwyddorion sydd ynddo, a hefyd yn caniatáu i'r Pwyllgor Safonau werthuso'r gwaith.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

## 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU 2021-22

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Monitro yn atodi copi o Adroddiad Blynyddol 2021-22 Panel Dyfarnu Cymru er sylw'r pwyllgor.

Amlygodd y Swyddog Monitro rai materion yn yr adroddiad:-

- Cyfeiriad Llywydd y Panel yn y rhagair i'r adroddiad at y disgwyliad y bydd materion yn gwella o ganlyniad i gyflwyno'r dyletswyddau newydd ar arweinyddion grwpiau gwleidyddol yn ymwneud â safonau mewn bywyd cyhoeddus.
- Yr achos eithriadol ar dudalen 33 o'r pecyn (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) sy'n amlygu bod yr ardaloedd risg i awdurdodau lleol yn llawer mwy technegol a masnachol y dyddiau hyn wrth i lawer mwy o arian cyhoeddus gael ei ffynonellau drwy'r cynghorau.

- Yr achos ar dudalen 37 o'r pecyn (Cyngor Wrecsam) sy'n enghraifft o bwyllgor safonau yn gwrthod dyfarniad y Tribiwnlys ar apêl yn erbyn eu penderfyniad, ac yn defnyddio eu hawl i ymlynu at eu penderfyniad gwreiddiol ynglŷn â'r achos.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2021-22**

Cyflwynwyd - adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau yn atodi copi o Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2021-22.

Amlygodd y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau rai materion yn yr adroddiad:-

- Y neges ar dudalen 79 o'r pecyn bod llai o gwynion wedi'u derbyn yn 2021-22 nag yn 2020-21, ond bod y nifer yn 2020-21 wedi bod yn anarferol o uchel, a bod y tueddiad am i fyny yn gyffredinol.
- Y derbynnir nifer uwch o gwynion am gynghorwyr cynghorau tref a chymuned, ond mae yna lawer mwy o gynghorwyr tref a chymuned nag o gynghorwyr sir. Mae lefel y gefnogaeth sydd ar gael i gynghorwyr tref a chymuned yn gallu amrywio hefyd, ac felly ni ellir casglu bod yr ymddygiad yn waeth yn y cynghorau hynny.
- Bod tua hanner y cwynion yn ymwneud â hyrwyddo cydraddoldeb a pharch, gyda'r cwynion parch yn faterion mwy lefel isel a'r cwynion cydraddoldeb, lle mae elfen o wahaniaethu, yn faterion mwy difrifol. O bosib' felly bod hyn yn amlygu lle mae'r problemau, a lle mae angen canolbwyntio'r sylw.
- Y gwelwyd cynnydd yn nifer y cyfeiriadau gan yr Ombwdsmon at bwyllgorau safonau a Phanel Dyfarnu Cymru, a chredir yn gryf mai'r ffordd o wyrdroi'r tueddiadau hyn yw trwy ddarparu hyfforddiant Cod Ymddygiad i gynghorwyr.
- Bod yna oblygiadau eithaf sylweddol o ran datrysiad lleol, a bod y pwyslais o ran yr hyn y gallwn ni ei wneud yn disgyn ar hyfforddiant.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**12 HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Cyflwynwyd - adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau yn cyflwyno gwybodaeth am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

**13. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 18C, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd ei fod yn ymwneud â thrafodion y Pwyllgor Safonau wrth ddod i benderfyniad ar fater a gyfeiriwyd ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Credir na ddylid datgelu'r wybodaeth rhag ofn i unrhyw gyhoeddusrwydd ynglŷn â'r achos ragfarnu sefyllfa'r Cynghorydd cyn unrhyw wrandawiad. Fel canlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

Nododd y Swyddog Monitro ei fod yn tynnu ei hun allan o'r mater hwn oherwydd y bu'n rhan o'r trafodaethau gyda'r aelodau sydd ynghlwm â'r achos. Gan hynny, ymneilltuodd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 14. ADRODDIAD OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR YMCHWILIAD I GŴYN YN ERBYN CYNGHORYDD

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau yn gwahodd y pwyllgor i ystyried adroddiad yr Ombwdsmon ar ymchwiliad i gŵyn yn erbyn cynghorydd, a dod i benderfyniad yn unol â gofynion y rheoliadau perthnasol.

**PENDERFYNWYD**

1. **Gwahodd y person sy'n destun yr ymchwiliad i gyflwyno sylwadau, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod ef / hi wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod.**
2. **Galw cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Safonau i ystyried a phenderfynu ar y mater.**
3. **Gwahodd yr Ombwdsmon i'r gwrandawiad i gyflwyno'r adroddiad a / neu egluro unrhyw faterion sydd ynddo.**
4. **Bod y swyddogion, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yn gosod dyddiad (ynghyd â dau wrth gefn) ar gyfer cynnal y gwrandawiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 12.15 y.h.

**CADEIRYDD**

# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU DYDD MAWRTH, 18 EBRILL 2023

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Anne Lloyd-Jones, Beth Lawton a Dewi Owen.

**Aelodau Annibynnol:** Mr Aled Jones, Mr Hywel Eifion Jones (Cadeirydd), Mr Mark Jones a Mr Dave Wareing

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:** Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn Bresennol:** Ar ran Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Katrin Shaw (Prif Gynghorwr Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau) a Sarah Jones (Swyddog Ymchwilio); Swyddogion Cyngor Gwynedd - Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau / Dirprwy Swyddog Monitro) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yr Aelod:** Y Cynghorydd Louise Hughes

**Yr Achwynydd:** Howard Huws (fel tyst)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. CŴYN O DORRI'R COD YMDDYGIAD A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR SAFONAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r gwrandawiad a chyflwynodd swyddogion yr Ombwdsmon eu hunain i'r aelodau.

Yna esboniodd y Cadeirydd natur / fformat y gwrandawiad.

**Cefndir**

1. Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") i gŵyn a wnaed gan Mr Howard Huws ("yr Achwynydd"), bod y Cynghorydd Louise Hughes ("yr Aelod") wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Gwynedd ("y Cyngor").

2. Honnwyd bod yr Aelod wedi ymddwyn yn amhriodol drwy ymateb mewn Almaeneg i ddau e-bost anfonwyd ati gan yr Achwynydd yn y Gymraeg.

3. Daeth yr Ombwdsmon i'r penderfyniad y gallai'r Aelod fod wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor, yn benodol, paragraffau 4(a), 4(b) sy'n darparu:

*"4. Mae'n rhaid i chi:*

*(a) gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi ystyriaeth briodol i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd;*

*(b) dangos parch at bobl eraill ac ystyriaeth iddynt;*

Canfu'r Ombwdsmon hefyd y gellid ystyried gweithredodd yr Aelod yn rhesymol fel ymddygiad a allai fod wedi torri paragraff 6 (1) (a) y Cod Ymddygiad:

*"6 (1) Mae'n rhaid i chi:*

*(a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid ystyried yn rhesymol ei bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'r awdurdod;"*

4. Cyfeiriodd yr Ombwdsmon ei adroddiad ymchwilio at Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd i'w ystyried gan ei Bwyllgor Safonau.

**Y Gwrandawiad**

5. Cyflwynodd y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau (Dirprwy Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd), oedd yn cynghori'r Pwyllgor, ei adroddiad ar gychwyn y gwrandawiad.

6. Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ysgrifenedig ymchwiliad yr Ombwdsmon, y dogfennau pellach a gyflwynwyd ymlaen llaw gan yr Aelod a'r Ombwdsmon yn unol â threfn cyn-wrandawiad y Pwyllgor, a'r dystiolaeth gan yr Awdurdod yn cadarnhau'r ddarpariaeth gyfieithu oedd ar gael pan dderbyniwyd yr e-byst gan yr Aelod. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd y cyflwyniadau llafar yn ystod y gwrandawiad gan Katrin Shaw, Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Swyddog Ymchwilio'r Ombwdsmon, yr Achwynydd, fel tyst, a'r Aelod ei hun. Roedd yr Aelod wedi nodi'n flaenorol na fyddai'n bresennol, gan ei bod wedi dweud yr hyn yr oedd am ei ddweud yn ei chyflwyniadau ysgrifenedig i'r ymchwiliad. Fodd bynnag, penderfynodd fod yn bresennol, er gwaethaf y pryder a'r trallod yr oedd y mater yn ei achosi iddi, i sicrhau'r Pwyllgor ei bod yn cymryd y mater o ddifrif.

**Y Penderfyniad**

7. Ystyriodd y Pwyllgor yn gyntaf unrhyw ganfyddiad o ffaith yr oedd angen iddo wneud. Nid oedd unrhyw ffeithiau oedd yn destun anghydfod yn yr achos hwn. Roedd y gŵyn yn deillio o gynnwys dau e-bost anfonwyd gan yr Aelod ar 4/12/21 a 21/2/22. Roedd copïau o'r ddau e-bost yma yn y dystiolaeth ysgrifenedig gerbron ac nid oedd amheuaeth felly ynglŷn â'r hyn yr oedd yr Aelod wedi ei ddweud.

8. Aeth y Pwyllgor ymlaen i ystyried ymddygiad yr Aelod, ac ar ôl ystyriaeth ofalus o'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd, penderfynodd y Pwyllgor fod yr Aelod wedi methu a chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad fel a ganlyn:

**9. Canfu'r Pwyllgor fod yr Aelod wedi torri paragraff 4(a) y Cod Ymddygiad am y rhesymau canlynol:**

9.1 Trwy ymateb i e-byst gan yr Achwynydd yn Almaeneg roedd yr Aelod wedi gwadu'r cyfle i'r Achwynydd allu cysylltu ag aelod etholedig o'r Cyngor yn ei ddewis iaith, sef Cymraeg. Credai'r Pwyllgor y dylai fod gan bawb yr hawl i gysylltu ag aelod o'r awdurdod a derbyn yr un lefel o wasanaeth, waeth ym mha iaith y gwneir y cyswllt. Fodd bynnag, roedd yr aelod wedi trin yr Achwynydd yn wahanol oherwydd iddo ysgrifennu ati yn Gymraeg. Roedd y Gymraeg yn rhan annatod a sylfaenol o hunaniaeth ddiwylliannol yr Achwynydd ac roedd ei drin yn wahanol ar y sail hon yn wahaniaethol ym marn y Pwyllgor. Er bod yr

ymatebion yn ôl pob golwg yn gofyn am gyfieithiad, mae'r ffaith iddi ddewis ysgrifennu yn Almaeneg, nad yw'n iaith swyddogol yng Nghymru, ar ddau achlysur yn dangos ym marn y Pwyllgor nad dyna oedd y bwriad mewn gwirionedd.

**10. Canfu'r Pwyllgor fod yr Aelod wedi torri paragraff 4(b) y Cod Ymddygiad am y rhesymau canlynol:**

10.1 Nid oedd yn rhesymol ym marn y Pwyllgor i ddehongli negeseuon yr Aelod fel ymgais ddiffuant i ddeall e-byst yr Achwynydd, nac fel ymgais i gyfleu'r teimlad o dderbyn neges mewn iaith nad oeddech yn ei deall. Ymhellach, roedd yr Achwynydd yn cysylltu â hi yn rhinwedd ei swydd fel cynrychiolydd Cylch yr Iaith, mudiad sy'n ymwneud yn benodol â hybu'r Gymraeg. 'Roedd yr aelod yn ymwybodol o hyn ac o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg i'r Achwynydd.

10.2 Roedd yr Achwynydd wedi dehongli ymateb yr aelod fel sarhaus, gwatwarus a choeglyd a chredai mai dyma'r unig ddehongliad rhesymol. Er bod yr Aelod yn cyfaddef mai ymgais 'blentynnaidd' ar hiwmor oedd ei hateb, gwadodd ei bod yn ddirmygus o'r Gymraeg mewn unrhyw ffordd. Wrth nodi'r esboniad yr Aelod ynghylch ei bwriad, barn y Pwyllgor oedd y dylai fod wedi bod yn glir iddi na fyddai ei hatebion yn cael eu dehongli fel rhai doniol ond yn hytrach yn goeglyd ac yn ddilornus o ddewis iaith yr Achwynydd. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad nid yn unig ei bod wedi dangos diffyg parch at yr achwynydd fel unigolyn a oedd yn dymuno ysgrifennu ati yn Gymraeg ond hefyd at y sefydliad yr oedd yn ei gynrychioli. Roedd y ffaith iddi wneud hyn ddwywaith, tua 3 mis ar wahân, yn atgyfnerthu'r canfyddiad mai gweithred fwriadol oedd hon yn hytrach na chamgymeriad byrbwyll.

10.3 Beth bynnag fo'r sefyllfa gyda chefnogaeth cyfieithu gan y Cyngor nodwyd na wnaeth yr Aelod unrhyw ymdrech i gael cymorth gan eraill i ddeall beth oedd cynnwys e-byst yr Achwynydd. Petai hi'n wirioneddol dymuno deall beth oedd cynnwys yr e-byst gallai fod wedi gofyn am gymorth.

**11. Canfu'r Pwyllgor fod yr Aelod wedi torri paragraff 6(1)(a) y Cod Ymddygiad am y rhesymau canlynol:**

11.1 O edrych ar ymddygiad yr Aelod yn ei gyfanrwydd, roedd y Pwyllgor o'r farn ei fod yn ddigon difrifol ei natur fel ei fod yn dwyn anfri ar ei swydd fel cynghorydd ac ar ei hawdurdod. Roedd y pwyllgor yn cytuno gyda barn yr Ombwdsmon bod ei ymddygiad wedi dangos diystyrwch o hawl yr Achwynydd i gysylltu gydag aelod etholedig drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn dangos y byddai methu â chyfathrebu yn Saesneg yn arwain at wasanaeth o safon is gan aelod etholedig. Cymerodd y Pwyllgor ystyriaeth hefyd o'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar Gyngor Gwynedd yn enwedig o ystyried pwysigrwydd a safle canolog yr iaith Gymraeg ym mhob agwedd o'i weithrediad.

**Cosb**

12. Roedd Pwyllgor o'r farn bod hwn yn achos difrifol o dorri cod ymddygiad yn enwedig o ystyried y ffaith ei fod wedi dwyn anfri ar swydd yr aelod ac ar yr awdurdod. Ystyriodd yr hyn yr oedd gan yr Ombwdsmon a'r Achwynydd i'w dweud yn y gwrandawiad ynghyd â'r arweiniad a roddir yng Nghanllaw ar Gosbau Panel Dyfarnu Cymru (y "Canllawiau").

13. Ystyriodd y Pwyllgor ddifrifoldeb yr ymddygiad ac yn arbennig y ffaith fod yr ymddygiad wedi dwyn anfri ar swydd ac awdurdod yr Aelod. Cymerodd i ystyriaeth hefyd bwrpas gosod cosb sef yr angen i feithrin hyder y cyhoedd mewn democratiaeth leol a bod angen felly adlewyrchu difrifoldeb y mater. Roedd y Pwyllgor o'r farn felly y byddai cosb yn cynnwys ataliad yn addas yn yr amgylchiadau. Aeth y Pwyllgor ati i ystyried y ffactorau lliniarol a gwaethygol hynny a restrir yn y Canllawiau (ym mharagraff 42):

14. O safbwynt ffactorau lliniarol canfu'r Pwyllgor fod y ffactorau canlynol yn berthnasol yn yr achos hwn:

- hanes blaenorol o wasanaeth da (yn enwedig os yw dros gyfnod maith);
- cydnabod ac edifarhau'r camymddwyn ac unrhyw ganlyniadau
- ymddiheuriad, yn enwedig ymddiheuriad cynnar, i unrhyw un a gafodd ei effeithio; yn y cyd-destun yma roedd y pwyllgor yn deall ac yn derbyn esboniad yr Aelod pam na wnaeth ymddiheuro yn gynharach, sef y rhybudd gan yr Ombwdsmon yn ystod yr ymchwiliad i beidio â thrafod y mater ag unrhyw un arall.
- cydweithredu â'r swyddog ymchwilio a'r pwyllgor safonau / PDC;
- derbyn bod angen newid ymddygiad yn y dyfodol;
- yn cydymffurfio â'r Cod ers y digwyddiadau a arweiniodd at y dyfarniad.
- Yn ogystal â'r materion penodol yn y Canllawiau, cymerwyd i ystyriaeth hefyd y llythyrau a dderbyniwyd yn tystio i gymeriad yr Aelod.

Ystyriodd y Pwyllgor os dylid ystyried diffyg darpariaeth gyfieithu fel ffactor lliniarol yn yr achos hwn, ond penderfynodd nad oedd, am y rhesymau a roddir ym mharagraff 10.3 uchod.

15. Gan droi at ffactorau gwaethygol, canfu'r Pwyllgor fod y canlynol yn berthnasol yn yr achos hwn:

- profiad maith, safle uchel a/neu swydd gyfrifol;
- gweithred/gweithredoedd sydd wedi dwyn anfri ar yr awdurdod perthnasol a/neu'r gwasanaeth cyhoeddus; - tra'n bresennol yn yr achos yma, roedd y Pwyllgor eisoes wedi ei gymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar ddifrifoldeb y drosedd ac felly ni ystyriwyd ef fel ffactor waethygol bellach.

**16. Ar ôl pwyso a mesur difrifoldeb yr ymddygiad dan sylw ac ar ôl ystyried y ffactorau lliniarol a'r ffactorau gwaethygol perthnasol penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r Aelod gael ei gwahardd o fod yn aelod o Gyngor Gwynedd am gyfnod o 1 mis.**

17 Penderfynodd y Pwyllgor hefyd:

**17. Ei fod yn disgwyl i'r Aelod fanteisio ar unrhyw gyfleoedd hyfforddiant a gynigir gan y Cyngor yn y dyfodol, sy'n ymwneud ag ymddygiad aelodau.**

**18. Y dylai'r Aelod ysgrifennu at yr Achwynydd o fewn 3 wythnos (o ddyddiad derbyn yr hysbysiad yma) i ymddiheuro am ei hymddygiad (gyda chopi i'r Swyddog Monitro)**

**19. Y dylid argymell i Gyngor Gwynedd ystyried os gellid darparu cymorth i aelodau mewn perthynas â gohebiaeth a dderbynnir ganddynt mewn iaith nad ydynt yn ei deall, unai yn fewnol neu drwy gyfeirio aelodau at ffynonellau eraill priodol.**

**Apêl**

20. Nodwyd y caiff yr Aelod ofyn am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor i dribiwnlys apeliadau a dynnwyd o Banel Dyfarnu Cymru, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig o fewn 21 diwrnod o dderbyn y rhybudd penderfyniad i lywydd Panel Dyfarnu Cymru. Rhaid i'r cais am ganiatâd i apelio nodi'r rhesymau dros apelio a pa un a roddir caniatâd i apelio ai peidio, ei bod yn cydsynio i'r apêl gael ei chynnal drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig. (Ceir manylion pellach ar wefan y Panel Dyfarnu www.paneldyfarnu.llyw.cymru).

**Dyddiad dod i rym unrhyw waharddiad**

21. Yn unol â'r Rheoliadau (rh.8(6)), bydd unrhyw gyfnod atal neu atal yn rhannol yn dechrau ar y diwrnod:

(a) ar ôl i'r amser a ganiateir i gyflwyno hysbysiad apêl ddod i ben,
Neu, os cyflwynir apêl:
(b) ar ôl i hysbysiad ynghylch casgliad unrhyw apêl ddod i law, neu
(c) ar ôl dyfarniad pellach gan y Pwyllgor Safonau a wnaed ar ôl cael argymhelliad gan dribiwnlys apeliadau ,
p'un bynnag sy'n digwydd olaf.

**Hysbysiad o'r Penderfyniad**

22. Yn unol â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (fel y'i diwygiwyd) ("y Rheoliadau") hysbysir yr Aelod, yr Achwynydd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o benderfyniad y Pwyllgor drwy Hysbysiad o Benderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 2.50 y.h.

**CADEIRYDD**

# Eitem 5

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **26 Mehefin 2023** |
| **TEITL :** | **Adroddiad ar ganlyniad ymchwiliad i gŵyn yn erbyn y Cynghorydd Louise Hughes o Gyngor Gwynedd** |
| **AWDUR :** | **Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **GWEITHREDU :** | **Cymeradwyo'r adroddiad ar ganlyniad yr ymchwiliad** |

**Cefndir**

1. O dan ddarpariaethau Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'i diwygiwyd) ("y Rheoliadau"), mae'n ofynnol ar y Pwyllgor i gynhyrchu adroddiad ar ganlyniad yr ymchwiliad uchod.

2. Rhaid gwneud hyn unai

(i) ar ôl i'r amser a ganiateir i gyflwyno apêl ddod i ben,
(ii) ar ôl i hysbysiad o gasgliad unrhyw apêl ddod i law, neu
(iii) ar ôl dyfarniad pellach gan y Pwyllgor Safonau mewn lle y mae tribiwnlys apêl wedi ei gyfeirio nôl ato,

p'un bynnag sy'n digwydd olaf

3. Ni dderbyniwyd cais am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau.

**Argymhelliad**

4. Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r adroddiad sydd wedi atodi i'w anfon at y Swyddog Monitro, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y Cyng. Hughes a'r achwynydd yn unol â gofynion y Rheoliadau

**Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd**

**Adroddiad ar ganlyniad cwyn a wnaed yn erbyn y Cynghorydd Louise Hughes, Cyngor Gwynedd**

1 Cynhyrchir yr adroddiad hwn yn unol â darpariaethau Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'i diwygiwyd) ("y Rheoliadau").

2. Yn dilyn ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gŵyn yn erbyn y Cyng. Hughes, cyfeiriwyd y mater at y Pwyllgor Safonau i'w ystyried. Mae penderfyniad y Pwyllgor a'r rhesymau dros ddod i'r penderfyniad hwnnw wedi'u nodi'n llawn yn yr **Hysbysiad o Benderfyniad** sydd ynghlwm fel **Atodiad** i'r adroddiad hwn.

3. Yn unol â'r Rheoliadau, anfonir copïau o'r adroddiad hwn at:

- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd
- Cyng. Louise Hughes
- Y sawl gyflwynodd y gŵyn

4. Yn dilyn derbyn yr adroddiad hwn, rhaid i'r Swyddog Monitro:

- gyhoeddi'r adroddiad ar wefan yr awdurdod perthnasol a threfnu bod copïau ar gael i'w harchwilio yn ddi-dâl ar bob adeg resymol yn un neu ragor o swyddfeydd yr awdurdod, pan fydd gan unrhyw berson hawl i wneud copïau o'r adroddiad, neu ddetholiadau ohono.

- darparu copi o'r adroddiad i unrhyw berson ar gais

- heb fod yn hwyrach na 7 diwrnod ar ôl i'r adroddiad ddod i law rhoi hysbysiad cyhoeddus, drwy hysbyseb mewn papurau newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal ac unrhyw ffyrdd eraill sy'n ymddangos iddo ef neu hi yn briodol y bydd copïau o'r adroddiad ar gael fel y darperir ar eu cyfer uchod.

**CYNGOR GWYNEDD**

**HYSBYSIAD O BENDERFYNIAD Y PWYLLGOR SAFONAU**

| | |
|---|---|
| **Aelod** | **Y Cynghorydd Louise Hughes** |
| **Awdurdod Perthnasol** | **Cyngor Gwynedd** |
| **Dyddiad a Lleoliad y Gwrandawiad** | **18/04/23**<br>**Cyfarfod rhithiol drwy Zoom** |
| **Achwynydd** | **Mr Howard Huws** |
| **Rhif Cyfeirnod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** | **202107843** |

**Cefndir**

1. Ystyriodd Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") i gŵyn a wnaed gan Mr Howard Huws ("yr Achwynydd"), bod y Cynghorydd Louise Hughes ("yr Aelod") wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Gwynedd ("y Cyngor").

2. Honnwyd bod yr Aelod wedi ymddwyn yn amhriodol drwy ymateb mewn Almaeneg i ddau e-bost anfonwyd ati gan yr Achwynydd yn y Gymraeg.

3. Daeth yr Ombwdsmon i'r penderfyniad y gallai'r Aelod fod wedi torri Cod Ymddygiad y Cyngor, yn benodol, paragraffau 4(a), 4(b) sy'n darparu:

*"4. Mae'n rhaid i chi:*

*(a) gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi ystyriaeth briodol i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd;*

*(b) dangos parch at bobl eraill ac ystyriaeth iddynt;"*

Canfu'r Ombwdsmon hefyd y gellid ystyried gweithredodd yr Aelod yn rhesymol fel ymddygiad a allai fod wedi torri paragraff 6 (1) (a) y Cod Ymddygiad:

*"6 (1) Mae'n rhaid i chi:*

*(a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid ystyried yn rhesymol ei bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'r awdurdod;"*

4. Cyfeiriodd yr Ombwdsmon ei adroddiad ymchwilio at Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd i'w ystyried gan ei Bwyllgor Safonau.

**Y Gwrandawiad**

5. Cyflwynodd y  Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau (Dirprwy Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd), oedd yn cynghori'r Pwyllgor, ei adroddiad ar gychwyn y gwrandawiad.

6. Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ysgrifenedig ymchwiliad yr Ombwdsmon, y dogfennau pellach a gyflwynwyd ymlaen llaw gan yr Aelod a'r Ombwdsmon yn unol â threfn cyn-wrandawiad y Pwyllgor, a'r dystiolaeth  gan yr Awdurdod yn cadarnhau'r ddarpariaeth gyfieithu oedd ar gael pan dderbyniwyd yr e-byst gan yr Aelod. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd y cyflwyniadau llafar yn ystod y gwrandawiad gan Katrin Shaw, Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Swyddog Ymchwilio'r Ombwdsmon, yr Achwynydd, fel tyst, a'r Aelod ei hun. Roedd yr Aelod wedi nodi'n flaenorol na fyddai'n bresennol, gan ei bod wedi  dweud yr hyn yr oedd am ei ddweud yn ei chyflwyniadau ysgrifenedig i'r ymchwiliad. Fodd bynnag, penderfynodd fod yn bresennol, er gwaethaf y pryder a'r trallod yr oedd y mater yn ei achosi iddi, i sicrhau'r Pwyllgor ei bod yn cymryd y mater o ddifrif.

**Y Penderfyniad**

7. Ystyriodd y Pwyllgor yn gyntaf unrhyw ganfyddiad o ffaith yr oedd angen iddo wneud. Nid oedd unrhyw ffeithiau oedd yn destun anghydfod yn yr achos hwn  Roedd y gŵyn yn deillio o gynnwys dau e-bost anfonwyd gan yr Aelod ar 4/12/21 a 21/2/22.  Roedd copïau o'r ddau e-bost yma yn y dystiolaeth ysgrifenedig gerbron ac nid oedd amheuaeth felly ynglŷn â'r hyn yr oedd yr Aelod wedi ei ddweud.

8. Aeth y Pwyllgor ymlaen i ystyried ymddygiad yr Aelod, ac ar ôl ystyriaeth ofalus o'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd, penderfynodd y Pwyllgor fod yr Aelod wedi methu cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad fel a ganlyn:

**9**. **Canfu'r Pwyllgor fod yr Aelod wedi torri paragraff 4(a) y Cod Ymddygiad am y rhesymau canlynol:**

9.1

9.1 Trwy ymateb i e-byst gan yr Achwynydd yn Almaeneg roedd yr Aelod wedi gwadu'r cyfle i'r Achwynydd allu cysylltu ag aelod etholedig o'r Cyngor yn ei ddewis iaith, sef Cymraeg. Credai'r Pwyllgor y dylai fod gan bawb yr hawl i gysylltu ag aelod o'r awdurdod a derbyn yr un lefel o wasanaeth, waeth ym mha iaith y gwneir y cyswllt. Fodd bynnag, roedd yr aelod wedi trin yr Achwynydd yn wahanol oherwydd iddo ysgrifennu ati yn Gymraeg. Roedd y Gymraeg yn rhan annatod a sylfaenol o hunaniaeth ddiwylliannol yr Achwynydd ac roedd ei drin yn wahanol ar y sail hon yn wahaniaethol ym marn y Pwyllgor. Er bod yr ymatebion yn ôl pob golwg yn gofyn am gyfieithiad, mae'r ffaith iddi ddewis ysgrifennu yn Almaeneg, nad yw'n iaith swyddogol yng Nghymru, ar ddau achlysur yn dangos ym marn y Pwyllgor nad dyna oedd y bwriad mewn gwirionedd.

**10. Canfu'r Pwyllgor  fod yr Aelod wedi torri paragraff 4(b) y Cod Ymddygiad am y rhesymau canlynol:**

10.1 Nid oedd yn rhesymol ym marn y Pwyllgor i ddehongli negeseuon yr Aelod fel ymgais ddiffuant i ddeall e-byst yr Achwynydd, nac fel ymgais i gyfleu'r teimlad o dderbyn neges mewn iaith nad oeddech yn ei deall. Ymhellach, roedd yr Achwynydd yn cysylltu â hi yn rhinwedd ei swydd fel

cynrychiolydd Cylch yr Iaith, mudiad sy'n ymwneud yn benodol â hybu'r Gymraeg. 'Roedd yr aelod yn ymwybodol o hyn ac o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg i'r Achwynydd.

10.2 Roedd yr Achwynydd wedi dehongli ymateb yr aelod fel sarhaus, gwatwarus a choeglyd a chredai mai dyma'r unig ddehongliad rhesymol. Er bod yr Aelod yn cyfaddef mai ymgais 'blentynnaidd' ar hiwmor oedd ei hateb, gwadodd ei bod yn ddirmygus o'r Gymraeg mewn unrhyw ffordd. Wrth nodi'r esboniad yr Aelod ynghylch ei bwriad, barn y Pwyllgor oedd y dylai fod wedi bod yn glir iddi na fyddai ei hatebion yn cael eu dehongli fel rhai doniol ond yn hytrach yn goeglyd ac yn ddilornus o ddewis iaith yr Achwynydd. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad nid yn unig ei bod wedi dangos diffyg parch at yr achwynydd fel unigolyn a oedd yn dymuno ysgrifennu ati yn Gymraeg ond hefyd at y sefydliad yr oedd yn ei gynrychioli. Roedd y ffaith iddi wneud hyn ddwywaith, tua 3 mis ar wahân, yn atgyfnerthu'r canfyddiad mai gweithred fwriadol oedd hon yn hytrach na chamgymeriad byrbwyll.

10.3 Beth bynnag fo'r sefyllfa gyda chefnogaeth cyfieithu gan y Cyngor nodwyd na wnaeth yr Aelod unrhyw ymdrech i gael cymorth gan eraill i ddeall beth oedd cynnwys e-byst yr Achwynydd. Petai hi'n wirioneddol dymuno deall beth oedd cynnwys yr e-byst gallai fod wedi gofyn am gymorth.

**11. Canfu'r Pwyllgor fod yr Aelod wedi torri paragraff 6(1)(a) y Cod Ymddygiad am y rhesymau canlynol:**

11.1 O edrych ar ymddygiad yr Aelod yn ei gyfanrwydd, roedd y Pwyllgor o'r farn ei fod yn ddigon difrifol ei natur fel ei fod yn dwyn anfri ar ei swydd fel cynghorydd ac ar ei hawdurdod. Roedd y pwyllgor yn cytuno gyda barn yr Ombwdsmon bod ei ymddygiad wedi dangos diystyrwch o hawl yr Achwynydd i gysylltu gydag aelod etholedig drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn dangos y byddai methu â chyfathrebu yn Saesneg yn arwain at wasanaeth o safon is gan aelod etholedig. Cymerodd y Pwyllgor ystyriaeth hefyd o'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar Gyngor Gwynedd yn enwedig o ystyried pwysigrwydd a safle canolog yr iaith Gymraeg ym mhob agwedd o'i weithrediad.

**Cosb**

12. Roedd Pwyllgor o'r farn bod hwn yn achos difrifol o dorri cod ymddygiad yn enwedig o ystyried y ffaith ei fod wedi dwyn anfri ar swydd yr aelod ac ar yr awdurdod. Ystyriodd yr hyn yr oedd gan yr Ombwdsmon a'r Achwynydd i'w dweud yn y gwrandawiad ynghyd â'r arweiniad a roddir yng Nghanllaw ar Gosbau Panel Dyfarnu Cymru (y "Canllawiau").

13. Ystyriodd y Pwyllgor ddifrifoldeb yr ymddygiad ac yn arbennig y ffaith fod yr ymddygiad wedi dwyn anfri ar swydd ac awdurdod yr Aelod. Cymerodd i ystyriaeth hefyd bwrpas gosod cosb sef yr angen i feithrin hyder y cyhoedd mewn democratiaeth leol a bod angen felly adlewyrchu difrifoldeb y mater. Roedd y Pwyllgor o'r farn felly y byddai cosb yn cynnwys ataliad yn addas yn yr amgylchiadau. Aeth y Pwyllgor ati i ystyried y ffactorau lliniarol a gwaethygol hynny a restrir yn y Canllawiau (ym mharagraff 42):

14. O safbwynt ffactorau lliniarol canfu'r Pwyllgor fod y ffactorau canlynol yn berthnasol yn yr achos hwn:

- hanes blaenorol o wasanaeth da (yn enwedig os yw dros gyfnod maith);
- cydnabod ac edifarhau'r camymddwyn ac unrhyw ganlyniadau

- ymddiheuriad, yn enwedig ymddiheuriad cynnar, i unrhyw un a gafodd ei effeithio; - yn y cyd-destun yma roedd y pwyllgor yn deall ac yn derbyn esboniad yr Aelod pam na wnaeth ymddiheuro yn gynharach sef y rhybudd gan yr Ombwdsmon yn ystod yr ymchwiliad i beidio â thrafod y mater ag unrhyw un arall.

- cydweithredu â'r swyddog ymchwilio a'r pwyllgor safonau/PDC;

- derbyn bod angen newid ymddygiad yn y dyfodol;

- yn cydymffurfio â'r Cod ers y digwyddiadau a arweiniodd at y dyfarniad.

- Yn ogystal â'r materion penodol yn y Canllawiau, cymerwyd i ystyriaeth hefyd y llythyrau a dderbyniwyd yn tystio i gymeriad yr Aelod.

Ystyriodd y Pwyllgor os dylid ystyried diffyg darpariaeth gyfieithu fel ffactor lliniarol yn yr achos hwn, ond penderfynodd nad oedd, am y rhesymau a roddir ym mharagraff 10.3 uchod.

15. Gan droi at <u>ffactorau gwaethygol</u>, canfu'r Pwyllgor fod y canlynol yn berthnasol yn yr achos hwn:

- profiad maith, safle uchel a/neu swydd gyfrifol;

- gweithred/gweithredoedd sydd wedi dwyn anfri ar yr awdurdod perthnasol a/neu'r gwasanaeth cyhoeddus; - tra'n bresennol yn yr achos yma, roedd y Pwyllgor eisoes wedi ei gymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar ddifrifoldeb y drosedd ac felly ni ystyriwyd ef fel ffactor waethygol bellach.

**16. Ar ôl pwyso a mesur difrifoldeb yr ymddygiad dan sylw ac ar ôl ystyried y ffactorau lliniarol a'r ffactorau gwaethygol perthnasol penderfynodd y Pwyllgor <u>y dylai'r Aelod gael ei gwahardd o fod yn aelod o Gyngor Gwynedd am gyfnod o 1 mis</u>**

Penderfynodd y Pwyllgor hefyd:

**17. Ei fod yn disgwyl i'r Aelod fanteisio ar unrhyw gyfleoedd hyfforddiant a gynigir gan y Cyngor yn y dyfodol, sy'n ymwneud ag ymddygiad aelodau.**

**18. Y dylai'r Aelod ysgrifennu at yr Achwynydd o fewn 3 wythnos ( o ddyddiad derbyn yr hysbysiad yma) i ymddiheuro am ei hymddygiad (gyda chopi i'r Swyddog Monitro)**

**19. Y dylid argymell i Gyngor Gwynedd ystyried os gellid darparu cymorth i aelodau mewn perthynas â gohebiaeth a dderbynnir ganddynt mewn iaith nad ydynt yn eu deall, unai yn fewnol neu drwy gyfeirio aelodau at ffynonellau eraill priodol.**

**Apêl**

20. Caiff yr Aelod ofyn am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor i dribiwnlys apeliadau a dynnwyd o Banel Dyfarnu Cymru, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig **o fewn 21 diwrnod o dderbyn y rhybudd penderfyniad hwn** i lywydd Panel Dyfarnu Cymru. Rhaid i’r cais am ganiatâd i apelio nodi’r rhesymau dros apelio a pa un a roddir caniatâd i apelio ai peidio, ei fod yn cydsynio i’r apêl gael ei chynnal drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig. (Ceir manylion pellach ar wefan y Panel dyfarnu www.paneldyfarnu.llyw.cymru )

**Dyddiad dod i rym unrhyw waharddiad**

21. Yn unol â’r Rheoliadau (rh.8(6)), bydd unrhyw gyfnod atal neu atal yn rhannol yn dechrau ar y diwrnod:

(a) ar ôl i'r amser a ganiateir i gyflwyno hysbysiad apêl ddod i ben,

Neu, os cyflwynir apêl:

(b) ar ôl i hysbysiad ynghylch casgliad unrhyw apêl ddod i law, neu

(c) ar ôl dyfarniad pellach gan y Pwyllgor Safonau a wnaed ar ôl cael argymhelliad gan dribiwnlys apeliadau ,

p'un bynnag sy'n digwydd olaf.

**Hysbysiad o’r Penderfyniad**

22. Yn unol â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (fel y’i diwygiwyd) (“y Rheoliadau”) hysbysir yr Aelod, yr Achwynydd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o benderfyniad y Pwyllgor drwy’r Hysbysiad o Benderfyniad hwn.

**Arwyddwyd:**



Hywel Eifion Jones, Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor Safonau

**Dyddiad:** 25.04.2023

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD** | **26 Mehefin 2023** |
| **TEITL** | **Adolygiad o'r Fframwaith Safonau Moesegol i Gymru – Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru** |
| **AWDUR** | **Swyddog Monitro** |

1. Crëwyd y Fframwaith Safonau Moesegol gyfredol gan Ddeddf Lywodraeth Leol 2000 . Fe adolygwyd y Cod Ymddygiad gwreiddiol yn sylweddol yn 2008 i'w ffurf presennol ond nid oes adolygiad arwyddocaol o'r fframwaith gyfansawdd ers ei sefydlu. Penodwyd Richard Penn gan Lywodraeth Cymru yn nechrau'r flwyddyn i adolygu y fframwaith yn ei chyfanrwydd a gwneud argymhellion.

2. Adroddwyd ar ganlyniadau y gwaith yma i Bwyllgor Safonau Tachwedd 2021 ( Linc isod) a nodwyd y byddai y Llywodraeth yn mynd ati i ymateb i'r adroddiad drachefn. Bellach mae ymgynghoriad wedi ei gyhoeddi ar gynigion posib er ymateb.

3. Atodi'r copi o'r ddogfen ymgynghori yn Atodiad 1 ac argymhellion ar gyfer ymateb yn Atodiad 2.

Atosdiad 1 - Ymgynghoriad ar argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol (adroddiad Richard Penn)

Atodiad 2- Ymateb Drafft

**Argymhelliad**

**Fod y Pwyllgor yn ystyried yr Atodiadau a dod i farn ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad er caniatáu eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.**

Fframwaith (llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Ymgynghoriad ar argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol (adroddiad Richard Penn)

Rydym yn dymuno cael eich barn ar ein hymateb i'r adolygiad o Fframwaith Safonau Moesegol Llywodraeth Leol.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 24 Mawrth 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 24 Mawrth 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cyflwyniad**

**Ystyried Argymhellion yr Adolygiad**

**Materion cysylltiedig eraill a godwyd mewn trafodaethau gyda rhanddeiliaid ar ôl cyhoeddi Adroddiad Adolygiad Penn**

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

**Sut i ymateb**

**Eich hawliau**

**Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Ym mis Mawrth 2021, comisiynodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd adolygiad annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol ("y Fframwaith") ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 "Deddf 2000"). Ceir trosolwg o'r Fframwaith yn Atodiad 2. Mae'n cwmpasu cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, cyd-bwyllgorau corfforedig, awdurdodau parciau cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub a chynghorau cymuned a thref. Pan ddefnyddir y termau cyngor/cynghorau yn y ddogfen hon mae hynny'n cynnwys hefyd bob aelod o'r cyrff a enwir uchod.

Nid oes fawr o newid wedi bod i'r Fframwaith dros yr ugain mlynedd diwethaf, felly teimlid bod adolygiad annibynnol yn bwysig er mwyn cynnal hyder yn y system a sicrhau bod datblygiadau o ran gwaith cynghorwyr a'u bywydau cyhoeddus yn cael eu hadlewyrchu yn y ffordd y mae'n gweithredu.

Mae fframwaith moesegol effeithiol yn hanfodol i sicrhau bod gan bobl a chynghorwyr o bob cefndir yr hyder i ymgysylltu â democratiaeth leol neu sefyll am swydd etholedig. Mae'n rhan o wneud Cymru'n genedl amrywiol a chynhwysol ac mae ei adolygu yn gam gweithredu yn ein Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Ar ben hynny, mae'n hanfodol bod y Fframwaith yn adlewyrchu'r deddfwriaeth sylweddol sydd wedi'i gwneud ers ei sefydlu, yn benodol Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021"). Mae'r ddogfen hon yn cynnwys dolenni i'r ddeddfwriaeth wreiddiol. Mewn rhai achosion, mae'r ddeddfwriaeth wedi cael ei diwygio ers hynny ac mae dolenni i'r ddeddfwriaeth ddiwygiedig wedi'u cynnwys yn y llyfryddiaeth ar ddiwedd y ddogfen hon.

Cyflwynodd Deddf 2021 nifer o fesurau i ategu'r fframwaith presennol. Yn gyntaf, gosododd ddyletswydd newydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau eu grŵp. Wrth wneud hynny, rhaid i arweinydd grŵp gydweithredu â phwyllgor safonau'r cyngor wrth arfer ei swyddogaethau i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel. Yn ei dro, mae gan bwyllgor safonau swyddogaethau newydd o dan Ddeddf 2021 uchod i sicrhau bod arweinwyr grwpiau yn gallu cael gafael ar gyngor a hyfforddiant i gefnogi eu dyletswyddau newydd ac i fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau â'r dyletswyddau hynny.

Yn ail, ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, bydd yn ofynnol i bwyllgorau safonau gyflwyno adroddiad blynyddol i'r cyngor yn disgrifio sut mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi cael eu cyflawni ac yn rhoi trosolwg o faterion ymddygiad o fewn y cyngor. Bydd yn rhaid i'r cyngor ystyried yr adroddiad ac unrhyw argymhellion o fewn 3 mis i'w dderbyn.

## Cylch Gorchwyl yr Adolygiad

Cynhaliwyd yr adolygiad annibynnol ("yr Adolygiad") gan Richard Penn, cyn-brif weithredwr awdurdod lleol a chyn-gadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Roedd telerau'r adolygiad fel a ganlyn:

- archwiliad o'r codau ymddygiad a fabwysiadwyd gan yr holl awdurdodau gofynnol yn erbyn y Cod Ymddygiad Enghreifftiol i ganfod unrhyw amrywiadau lleol
- dadansoddiad o effeithiolrwydd y Fframwaith o ran meithrin safonau uchel o ran ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru a hyder y cyhoedd yn y trefniadau hynny
- ystyried a yw'r Fframwaith yn dal yn 'addas at ei ddiben', gan gynnwys a yw'r deg egwyddor ymddygiad yn dal yn berthnasol ac a oes angen diweddaru'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol. Roedd hyn yn cynnwys nodi meysydd lle gellid / y dylid gwella'r trefniadau presennol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- ystyriaeth o rôl pwyllgorau safonau, gan gynnwys eu rôl yng nghyswllt cynghorau cymuned ac a yw sefydlu is-bwyllgorau yn cael unrhyw effaith ar y broses o gefnogi cynghorau cymuned a delio â chwynion
- dadansoddiad o'r trefniadau a'r protocolau sydd ar waith o fewn awdurdodau i gefnogi aelodau a staff i atal yr angen i faterion a) godi yn y lle cyntaf, a b) gael eu gwaethygu y tu hwnt i ddatrysiad lleol. Bydd hyn yn cynnwys meysydd fel cyfathrebu a chyfeirio clir, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth a dull yr awdurdodau o fynd i'r afael â phryderon.
- ystyried y sancsiynau presennol ac a ydynt yn dal yn briodol

## Casgliadau'r Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol

Daeth yr **Adolygiad** i'r casgliad bod y Fframwaith presennol yn 'addas at ei ddiben' a'i fod yn gweithio'n dda yn ymarferol. Awgrymodd y gallai rhai newidiadau arwain at roi mwy o bwyslais yn y Fframwaith ar atal cwynion, gwella'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion a sicrhau bod safonau moesegol sy'n uchel eisoes yn cael eu gwella ymhellach.

## Datblygu'r Papur Ymgynghori hwn

Ers cyhoeddi'r Adolygiad, rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys swyddogion monitro, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'i swyddfa, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac Un Llais Cymru. Fe wnaethom wrando'n ofalus hefyd ar y drafodaeth am argymhellion yr Adolygiad yng Nghynhadledd Safonau Cymru Gyfan ym mis Chwefror 2022. Ar ben hynny, rydym yn ddiolchgar i'r pwyllgorau safonau sydd wedi ysgrifennu atom gyda'u barn. Mae'r papur ymgynghori hwn yn adeiladu ar argymhellion yr Adolygiad gan ystyried y trafodaethau hyn a dulliau cyfathrebu eraill.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ystyried Argymhellion yr Adolygiad

## Argymhelliad 1

Nid yw'r Cod yn cynnig unrhyw drothwy o ran datgan unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant perthnasol na mantais. Dylai'r trothwy gael ei nodi yn y Cod er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru.

### Ystyried Argymhelliad 1

Mae’r Adolygiad yn nodi nad yw’r Cod Ymddygiad Enghreifftiol (“y Cod Enghreifftiol”) yn cynnwys trothwy ar gyfer datgan rhoddion, lletygarwch, buddiant perthnasol na mantais. O ganlyniad, lle mae cynghorau wedi penderfynu cynnwys trothwy yn eu codau eu hunain, gwelwyd amrywiad eang, yn amrywio o £21 i £100. Mae Cod Ymddygiad Model yn atodiad i Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008, fel y'i diwygiwyd.

Mae gwaith archwilio pellach gyda rhanddeiliaid yn awgrymu mai’r rheswm am hyn yw bod gwahanol gynghorau o wahanol feintiau a chyfansoddiad. Hefyd, mae amgylchiadau lleol yn effeithio ar a yw cynghorau wedi penderfynu cynnwys trothwy yn eu cod eu hunain ai peidio ac, os felly, beth yw’r trothwy. Efallai na fydd trothwy o £100 neu £150, er enghraifft, yn briodol ar gyfer rhai cynghorau, gan y gallai fod yn rhy uchel i rai, ac yn rhy isel i eraill

Nid ydym yn cynnig diwygio'r Model Enghreifftiol, ond gan gydnabod bod y dulliau o fynd ati i fonitro rhoddion a lletygarwch yn faterion sensitif yn aml, rydym wedi argymell yn ein Canllawiau Statudol ac Anstatudol ar gyfer Prif Gynghorau Cymru ategu darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 y dylai’r dull o fynd ati gael ei adolygu a’i gytuno o fewn prif

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gynghorau unigol ac y dylai'r adolygiad rheolaidd o drothwyon ar gyfer datgan anrhegion, lletygarwch, buddiant perthnasol neu fantais, yn cael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol y pwyllgor safonau. Bydd hyn yn helpu o ran tryloywder y trefniadau.

Fel rhan o'r canllawiau, rydym wedi awgrymu bod hwn yn fater y dylid ei drafod fel mater o drefn gan y swyddogion monitro a chadeiryddion grwpiau pwyllgorau safonau.

## Argymhelliad 2

Mae'n ofynnol i aelodau gynnwys eu cyfeiriad cartref yng Nghofrestr Buddiannau eu Cyngor. Cytunir na ddylai'r Cod ei gwneud yn ofynnol i Gynghorwyr ddatgelu eu cyfeiriad cartref ac y dylai'r Cod gael ei ddiwygio'n briodol.

### Ystyried Argymhelliad 2

Nid yw'r Cod Enghreifftiol fel y'i nodir yn y rheoliadau yn gofyn yn benodol am ddatgelu manylion cyfeiriad cartref cynghorwyr pan gaiff buddiant ei ddatgan o ran eu cartref.

Fodd bynnag, o ystyried y gofynion yn y Cod Ymddygiad i aelodau fod yn agored ac yn dryloyw wrth drin materion yn ymwneud â'u buddiannau personol, gan gynnwys yr eiddo y maent yn berchen arno ac yn byw ynddo, roedd canllawiau a ddarparwyd gan swyddfa'r Ombwdsmon yn cynghori cynghorwyr i gynnwys y cyfeiriad. Yn dilyn trafodaethau â rhanddeiliaid, cytunwyd ei bod yn ofynnol i gynghorwyr ddatgan y buddiant, ond ers hynny mae canllawiau'r Ombwdsmon wedi'u diweddaru **'Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru'** gan gynghori aelodau bod darparu enw stryd neu god post yr eiddo yn unig yn ddigon. Mae'r newidiadau hyn yn ymwneud â materion ymarferol o ran cyhoeddi cyfeiriad cartref cynghorydd yn unig. Mae'n

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

parhau’n ddyletswydd ar gynghorwyr i sicrhau eu bod yn datgan buddiannau personol a rhagfarnol mewn materion sy'n ymwneud ag unrhyw ran o fusnes y Cyngor sy'n effeithio ar eiddo y maent yn berchen arno neu'n byw ynddo.

Yn ogystal, mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Chyhoeddi Gwybodaeth) (Cymru) 2022, sy'n gymwys mewn perthynas â Chymru, yn diwygio Deddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972") a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001") gan ddileu'r gofyniad i gynghorau sir yng Nghymru gyhoeddi manylion cyfeiriadau cartref personol cynghorwyr.

Yng ngoleuni’r uchod, mae’r mater wedi’i ddatrys erbyn hyn ac felly rydym yn cynnig nad oes angen cymryd camau pellach yng nghyswllt yr argymhelliad hwn.

## Argymhelliad 3

Ni chaiff 'person' ei ddiffinio yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 nac yn y Cod. Argymhellir y byddai'n fuddiol cael diffiniad clir o ystyr 'person' ar wyneb y ddeddfwriaeth neu yn y Cod.

### Ystyried Argymhelliad 3

Mae Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (a Deddf Dehongli 1978) yn darparu diffiniadau o ‘berson’ sydd yn union yr un fath i bob pwrpas. Mae’r dull gweithredu hwn ar gyfer un diffiniad o dermau a ddefnyddir yn gyffredin wrth ddrafftio deddfwriaeth yn bwysig er mwyn sicrhau nad yw deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yn frith o ddiffiniadau o dermau cyffredin, a’r diffiniadau hynny’n gwrthdaro, yn gwrth-ddweud ei gilydd, neu’n ddiangen o hir.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Er ein bod yn cydymdeimlo â’r esiampl a nodwyd yn yr Adolygiad, nid ydym yn bwriadu gweithredu ar yr argymhelliad hwn.

## Argymhelliad 4

Nid yw Paragraff 4a o'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i aelod: 'cyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd' yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig. Dylai'r ddarpariaeth yn y Cod gael ei hymestyn i gynnwys pob un o'r naw nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

### Ystyried Argymhelliad 4

Mae Adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (‘Deddf 2010’) yn darparu ar gyfer y nodweddion gwarchodedig canlynol:

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

Cafodd y Cod Enghreifftiol ei ddrafftio cyn bodolaeth y darpariaethau hyn ac, er bod yr egwyddorion sydd wedi’u nodi yn y Cod Enghreifftiol yn gydnaws ag ysbryd Deddf 2010, cadarnhaodd trafodaethau gyda rhanddeiliaid y byddai cysoni’r Cod Ymddygiad Enghreifftiol â’r nodweddion gwarchodedig yn Neddf

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

2010 nid yn unig yn rhoi eglurder ond hefyd, yn bwysig iawn, yn anfon neges gref bod disgwyl i gynghorwyr hyrwyddo a chynnal y safonau ymddygiad uchaf.

Rydym felly'n cynnig diwygio'r diffiniad ym mharagraff 4a o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol (Gorchymyn Awdurdodau Lleol (**Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008**) i gyd-fynd â'r diffiniad o nodweddion gwarchodedig yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Byddwn hefyd yn diwygio'r diffiniad o gydraddoldeb a pharch yn adran 7 o **Orchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001.**

## Argymhelliad 5

Mae'r posibilrwydd o dorri'r Cod yn sgil y defnydd helaeth a chynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol gan aelodau etholedig yn destun pryder. Dylai'r canllawiau defnyddiol ar y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol gan CLILC ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gael eu ffurfioli drwy ddiwygiadau priodol i'r Cod.

### Ystyried Argymhelliad 5

Mae trafodaethau â rhanddeiliaid wedi cynnwys ystyried sut mae hyfforddiant, boed hynny'n hyfforddiant cynefino a hyfforddiant parhaus, yn cael ei ddarparu i aelodau etholedig ar y Cod Ymddygiad, gan gynnwys ei ddefnyddio yn achos cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r trafodaethau ynghylch y nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant ar ôl etholiadau mis Mai 2022 wedi bod yn gadarnhaol ac rydym yn credu y bydd hyfforddiant a'r nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant yn fwy effeithiol o ran mynd i'r afael â'r mater hwn na diwygio'r Cod Enghreifftiol. Mae'r Cod Enghreifftiol yn berthnasol i ymddygiad cynghorydd mewn nifer o amgylchiadau, ac rydym yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

teimlo felly nad yw'n briodol cyfleu un cyd-destun yn hytrach nag eraill yn y Cod Enghreifftiol ei hun.

Felly, nid ydym yn bwriadu diwygio'r Cod Enghreifftiol ond byddwn yn parhau i weithio gyda CLILC, Un Llais Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a swyddogion monitro i hyrwyddo hyfforddiant fel y ffordd fwyaf priodol o atal ymddygiad amhriodol drwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol.

Rydym hefyd wedi cynnwys cyfeiriad penodol at hyfforddiant ar y Cod Enghreifftiol ac yn defnyddio'r Cod yng nghyd-destun cyfryngau cymdeithasol yn ein canllawiau statudol diwygiedig ar hyfforddi a datblygu aelodau a gyhoeddwyd o dan adran 7 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac yn y canllawiau ar y cynlluniau hyfforddi y mae'n ofynnol i gynghorau tref a chymuned eu paratoi o dan Ddeddf 2021.

## Argymhelliad 6

Mae 6(1)(b) o'r Cod Ymddygiad yn rhwymo aelodau etholedig i adrodd ar ymddygiad troseddol pobl eraill ond nid eu hymddygiad troseddol eu hunain. Dylai'r Cod Ymddygiad gael ei ddiwygio'n briodol fel bod yr aelod yn gorfod adrodd ar ei ymddygiad troseddol ei hun.

### Ystyried Argymhelliad 6

Mae ymddygiad troseddol yn faes cyfreithiol gymhleth. Yn gyntaf, mae angen gwybod pryd y dylai'r aelod 'adrodd' ar ei ymddygiad troseddol ei hun. A ddylid rhoi gwybod pan fydd yr aelod yn cael ei gyhuddo neu pan fydd yr aelod yn cael gwybod bod ymchwiliad troseddol yn cael ei gynnal. Sut byddai hyn yn effeithio ar egwyddorion sylfaenol cyfiawnder naturiol a'r posibilrwydd y byddai'r aelod yn rhagfarnu achosion neu ymchwiliadau yn ei erbyn ei hun.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

A ddylai fod angen adrodd pan fydd euogfarn wedi'i gwneud, er y gallai apêl fod ar y gweill neu pan fydd pob llwybr apêl wedi'i ddilyn. Y naill ffordd neu'r llall byddai'r argymhelliad fel y'i gwnaethpwyd yn gosod safon uwch ar gyfer hunan-adrodd nag ar gyfer rhoi gwybod am aelod arall lle mae 'ymddiriedaeth resymol' yn cael ei osod fel safon.

Cwestiwn arall yw sut y byddai'r dull hwn yn cyd-fynd â'r drefn anghymhwyso ar gyfer aelodaeth o awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd, nid yw aelodau wedi'u gwahardd nes y bydd pob apêl wedi'i disbyddu neu os nad ydynt wedi bod mewn cyfarfod awdurdod lleol am fwy na chwe mis, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

Hefyd, credwn fod yr egwyddorion a nodir yng **Ngorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001** yn ddigon cryf i ddibynnu ar aelod yn hunan-adrodd ar unrhyw gamau y gallai fod wedi'u cymryd a allai fod yn groes i'r egwyddorion a'r Cod cysylltiedig.

Felly, rydym yn cynnig peidio â chymryd unrhyw gamau pellach yng nghyswllt yr argymhelliad hwn.

## Argymhelliad 7

Hyfforddiant gorfodol ar y Cod Ymddygiad i holl aelodau prif gynghorau a chynghorau cymuned. Cynnwys ymrwymiad i gwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol yn y Datganiad Derbyn Swydd y mae'n ofynnol i bob aelod etholedig ei lofnodi o dan Orchymyn Etholiadau Lleol (Datganiad Derbyn Swydd) (Cymru) 2004.

### Ystyried Argymhelliad 7

Mae hyfforddiant hygyrch o ansawdd uchel, a'r nifer sy'n manteisio arno, wedi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

bod yn thema sy’n codi dro ar ôl tro yn ein trafodaethau â rhanddeiliaid. Mae Un Llais Cymru a CLILC wedi canolbwyntio ar hyn yn y cyfnod cyn ac ar ôl etholiadau mis Mai 2022. Mae swyddogion monitro hefyd wedi bod yn blaenoriaethu hyfforddiant ar y cod ymddygiad ar gyfer aelodau sydd newydd eu hethol a rhai sy’n dychwelyd.

Hyfforddiant yw un o’r meysydd y byddwn yn gofyn i bwyllgorau safonau adrodd yn ei gylch. Hefyd, mae’n ofynnol i bwyllgorau safonau weithio gydag arweinwyr grwpiau gwleidyddol i gefnogi’r gwaith o gyflawni eu dyletswydd statudol i hyrwyddo safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau eu grwpiau gwleidyddol mewn canllawiau statudol a gyhoeddir o dan 2021. Rydym felly wedi archwilio'r mater hwn ymhellach fel rhan o'r ymgynghoriad diweddar ar weinyddu a diwygio etholiadol **Papur Gwyn ar weinyddu a diwygio etholiadol**. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ar 10 Ionawr. Mae'r ymatebion a dderbynnir yn cael eu hystyried ar hyn o bryd a byddant yn llywio’r polisi yn y dyfodol ar y mater hwn.

Nid yw Gorchymyn Etholiadau Lleol (Datganiad Derbyn Swydd) (Cymru) 2004 wedi ei ddiddymu na’i ddiwygio ers ei wneud yn 2004. Mae’r datganiad derbyn swydd wedi’i gynnwys yn Atodlen 2 fel a ganlyn:

- Yr wyf i [(1)], a minnau wedi fy ethol i swydd [(2)] [(3)], yn datgan fy mod yn cymryd arnaf fy hun y swydd honno, ac y byddaf yn cyflawni dyletswyddau’r swydd yn briodol ac yn ffyddlon hyd eithaf fy marn a’m gallu.
- Yr wyf yn ymrwymo i barchu’r cod ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth aelodau ac sy’n bodoli am y tro ac a allai gael ei adolygu o dro i dro [(4)].
- Llofnodwyd     Dyddiad
- Cafodd y datganiad hwn ei wneud a’i lofnodi ger fy mron
- Llofnodwyd

Swyddog priodol y cyngor (5)

(1) Mewnososder enw’r person sy’n gwneud y datganiad.
(2) Mewnososder “aelod” neu “Maer” fel y bo’n briodol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

(3) a (4) Mewnosoder enw’r awdurdod y mae’r person sy’n gwneud y datganiad yn aelod ohono neu’n faer yr awdurdod.
(5) Pan wneir y datganiad gerbron person arall a awdurdodwyd gan adran 83(3) neu (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, dylid datgan, yn lle hynny, yn rhinwedd pa swydd y mae’r person hwnnw’n derbyn y datganiad.

Gellid dadlau bod cynnwys cyfeiriad at hyfforddiant yn y datganiad derbyn swydd yn gwneud hyfforddiant yn orfodol, i bob pwrpas, ac felly nid ydym yn cynnig gwneud unrhyw ddiwygiadau iddo ar hyn o bryd.

Byddwn fodd bynnag yn:

- parhau i weithio gyda chynghorau, CLlLC ac Un Llais Cymru i hyrwyddo pwysigrwydd hyfforddiant a’r nifer sy’n manteisio arno ymysg cynghorwyr
- parhau i gefnogi’r gwaith o ddatblygu adnoddau hawdd eu defnyddio er mwyn galluogi hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant ar-lein
- ystyried sut mae’r hyfforddiant hwn yn cael ei nodi fel rhan o’r asesiad hyfforddi a datblygu a gynhaliwyd gan benaethiaid gwasanaethau democrataidd a phwyllgorau gwasanaethau democrataidd mewn prif gynghorau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac fel rhan o gynlluniau hyfforddi a luniwyd o dan Ddeddf 2021 mewn cynghorau tref a chymuned

Byddwn hefyd:

- yn ymgysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a’i swyddfa i asesu lefel a natur y cwynion sy’n cael eu derbyn ac a yw peidio â mynd ar hyfforddiant wedi cyfrannu at yr ymddygiad gwael a adroddir ac i ba raddau y mae hyfforddiant yn cael ei argymell fel rhan o’r ateb
- yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau safonau fonitro ac adrodd ynghylch a yw cynghorwyr sydd wedi bod yn destun cwyn a gadarnhawyd wedi mynychu sesiwn hyfforddi ar y cod ymddygiad ai peidio. Rydym wedi cynnwys y gofyniad hwn mewn canllawiau statudol i bwyllgorau safonau a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ddyroddwyd o dan adran 63 o Ddeddf 2021

## Argymhelliad 8

Datrys mwy o gwynion yn lleol. Dylai'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol gael ei ddiwygio'n briodol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ystyried datrys cwyn yn lleol cyn ei hatgyfeirio at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

### Ystyried Argymhelliad 8

Bwriad protocolau datrys lleol yw ymdrin â'r hyn a elwir weithiau'n gwynion 'lefel is' a wneir dan y cod ymddygiad gan un aelod am aelod arall, ac weithiau, os yw'n briodol, cwynion tebyg a wneir gan swyddogion neu aelodau o'r cyhoedd. Mae'r rhain fel arfer yn gwynion am fethu dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.

Yn gyntaf, nid ydym yn credu ei bod yn briodol delio ag UNRHYW gŵyn a wneir o dan y cod ymddygiad drwy benderfyniad lleol yn gyntaf. Nid ydym yn credu mai bwriad yr argymhelliad mewn unrhyw achos yw y byddai pob cwyn yn cael ei datrys yn lleol yn gyntaf.

Yn ail, rydym yn awgrymu bod yr enw 'Cod Enghreifftiol' yn dangos yn glir mai dyna ydyw cod enghreifftiol sy'n nodi'r gofyniad cyfreithiol sylfaenol ar gyfer ei gynnwys yn y cod ymddygiad y mae cyngor yn ei fabwysiadu. Ym marn Llywodraeth Cymru, byddai'n gwbl ymarferol i gynghorau gynnwys y gofyniad i gael protocol datrys lleol yn eu codau fel y'u mabwysiedir.

Fodd bynnag, credwn gwneud y broses yn weladwy i'r cyhoedd, swyddogion ac aelodau yn bwysig ac felly rydym wedi cynnwys gofyniad yn ein canllawiau statudol i bwyllgorau safonau ar eu hadroddiadau blynyddol i ystyried gweithrediad y protocol lleol ac asesiad o'i effaith. Pan na fydd protocol lleol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

wedi'i fabwysiadu, byddwn yn gofyn i bwyllgorau safonau ystyried a fyddai mabwysiadu protocol o'r fath yn cefnogi ei swyddogaethau yng nghyswllt hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad moesegol.

## Argymhelliad 9

Pwerau estynedig i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Byddai mwy o ddefnydd o ddisgresiwn yr Ombwdsmon ym maes atgyfeirio na'r hyn a geir ar hyn o bryd yn cael ei groesawu gan Swyddogion Monitro a Chadeiryddion Pwyllgorau Safonau. Byddai ymestyn ei bŵer i atgyfeirio cwynion yn ôl at ddatrysiad lleol yn newid buddiol i'r fframwaith presennol

### Ystyried Argymhelliad 9

Nododd yr Adroddiad fod ymddygiad gwael (hyd yn oed os nad yw'n bodloni trothwy Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer ymchwiliad llawn) yn cael effaith niweidiol ar hyder y cyhoedd ac aelodau etholedig yn y system. Mynegwyd y farn hon eto yng nghyd-destun cwynion 'lefel isel' nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ymchwiliad llawn gan yr Ombwdsmon.

Cytunwn â'r casgliadau bod camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r math hwn o ymddygiad yn hanfodol er mwyn cynnal hyder yn y system. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod angen newid y gyfraith.

Pan fydd achos yn bodloni trothwy Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer ymchwiliad a phan fydd yr Ombwdsmon yn dechrau ymchwiliad, mae adran 70(4) o Ddeddf 2000 yn datgan, pan fydd yr Ombwdsmon yn rhoi'r gorau i ymchwiliad o dan adran 69 cyn iddo gael ei gwblhau, y caiff yr Ombwdsmon gyfeirio'r materion sy'n destun yr ymchwiliad at swyddog monitro'r awdurdod perthnasol dan sylw. Hyd yn oed pan nad ymchwilir i achosion, dull yr Ombwdsmon yw rhannu pob achos â'r swyddogion monitro. Mae hyn, wrth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ystyried y newidiadau i Ddeddf 2000 a fewnosodwyd gan Ddeddf 2021, sy'n cryfhau rôl arweinwyr grwpiau gwleidyddol a phwyllgorau safonau i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad ymysg aelodau, yn golygu bod modd mynd i'r afael â'r mater hwn drwy drafodaethau rhwng yr Ombwdsmon, swyddogion monitro a phwyllgorau safonau.

Mae'r Ombwdsmon wedi cytuno i archwilio sut y gall gefnogi swyddogion monitro a phwyllgorau safonau gyda'u rôl ehangach, ac felly nid ydym yn bwriadu cymryd unrhyw gamau pellach.

## Argymhelliad 10

Newidiadau i bwerau a phrosesau Panel Dyfarnu Cymru.

### Ystyried Argymhelliad 10

Roedd argymhelliad yr Adroddiad yn cynnwys sawl cynnig ar gyfer newid gweithdrefnau'r Panel fel a ganlyn.

## Gorchmynion Adrodd Cyfyngedig

Ni all y Panel reoli'r broses o adrodd am unrhyw achos gan y wasg. Mae Llywydd y Panel o'r farn y byddai'r pwerau fel y rhai sydd ar gael i Dribiwnlys Cyflogaeth, i osod Gorchymyn Adrodd Cyfyngedig naill ai hyd ddiwedd achos neu Orchymyn Adrodd Cyfyngedig estynedig, yn briodol i bob un o Dribiwnlysoedd Panel Dyfarnu Cymru lle mae tegwch y tribiwnlys neu ddiogelwch tystion, aelodau panel neu staff o bosibl yn cael ei danseilio.

Felly, rydym yn gofyn am eich barn ynghylch a ddylem wneud darpariaeth ddeddfwriaethol i alluogi'r Panel i gyhoeddi gorchmynion adrodd cyfyngedig, ac

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

mae cwestiwn ar hyn wedi'i gynnwys yn y cwestiynau ymgynghori isod.

## Anhysbysrwydd tystion

Gall y Llywydd gyhoeddi canllawiau i sicrhau cysondeb a thryloywder, ond mae'r Panel o'r farn y byddai pŵer penodol i fod yn ddienw, a ddefnyddir yn gymesur i sicrhau diogelwch tystion, yn briodol ar gyfer tribiwnlysoedd achos ac apêl.

Felly, rydym yn gofyn am eich barn ynghylch a ddylid cael darpariaeth gyfreithiol benodol ar gyfer y Panel er mwyn sicrhau bod tystion yn aros yn ddienw, ac mae cwestiwn ar hyn wedi'i gynnwys yn y cwestiynau ymgynghori isod.

## Datgelu

Nodwyd mater yn ymwneud â datgelu'r deunydd heb ei ddefnyddio a ddelir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a swyddogion monitro yn yr Adroddiad. Cytunwyd i ddiwygio proses yr Ombwdsmon ei hun yn y cyswllt hwn, gyda Chyfarwyddyd Ymarfer/Canllawiau Llywyddol ar ddatgelu ac ar rôl y Swyddog Monitro yn gyffredinol.

Mae'r mater hwn bellach wedi'i ddatrys drwy newid y Canllawiau Llywyddol ac felly nid oes angen cymryd camau pellach.

## Trefn y Tribiwnlys Apêl

Mae Llywydd y Panel Dyfarnu yn credu y dylid gwneud diwygiadau i drefn y Tribiwnlys Apêl i gynnwys pŵer datganedig i alw tystion i Dribiwnlys Apêl.

Hefyd, mae rheoliad 9(2) o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

("Rheoliadau 2001") yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor safonau ystyried argymhelliad o benderfyniad Panel Dyfarnu Cymru y dylid rhoi cosb wahanol i'r penderfyniad gwreiddiol. Nid yw rhai rhanddeiliaid yn cefnogi'r broses hon er bod Llywydd y Panel yn ei gefnogi gan fod y pwyllgor safonau yn parhau i fod yn gyfrifol ac y gall adlewyrchu ei ymateb i benderfyniad y Panel yn y sancsiwn y mae'n penderfynu ei osod.

Mae'r trefniadau presennol mewn perthynas ag apeliadau wedi'u nodi yn Rheoliadau 2001 ac mewn Canllawiau Llywyddol. Hefyd, ceir Cyfarwyddyd Ymarfer gan Banel Dyfarnu Cymru sy’n nodi gwybodaeth berthnasol am weithdrefnau’r Panel mewn ymateb i gyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae’r Canllawiau a’r Cyfarwyddiadau Ymarfer ar gael ar wefan y Panel, drwy ddilyn y ddolen hon **Panel Dyfarnu Cymru**. Gweler hefyd Ganllawiau a Chyfarwyddiadau Llywyddol y Panel yma **Dogfennau Ymarfer**.

Felly, mae gennym ddiddordeb yn eich barn ynghylch a ddylid darparu ar gyfer pŵer datganedig i alw tystion i dribiwnlysoedd apêl, ac a ddylid gwneud unrhyw newidiadau i’r weithdrefn gan gyfeirio penderfyniadau apêl yn ôl at bwyllgorau safonau. Mae cwestiwn am hyn wedi’i gynnwys yn y cwestiynau ymgynghori isod.

## Gweithdrefn y Tribiwnlys Achosion

Mae Llywydd y Panel o’r farn bod y rheoliadau wedi dyddio ac mae wedi cynnig nifer o ddiwygiadau i wneud gweithdrefn y tribiwnlys achosion yn fwy effeithlon a thecach i dystion.

Mae’r cynigion hyn yn ymwneud â’r canlynol:

- darparu darpariaeth ddatganedig ar gyfer gwrandawiadau preifat rhannol gyhoeddus a rhannol breifat
- a ddylid ailystyried y gofyniad i ddarparu saith niwrnod o rybudd o ohirio

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gwrandawiad i'r aelod a gyhuddir
- y broses ar gyfer ceisio caniatâd i apelio

Mae’r broses bresennol ar gyfer ceisio caniatâd i apelio wedi’i nodi yn Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001, fel y’u diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Dirymiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016.

Mae’n ei gwneud yn ofynnol i’r Llywydd, neu ei enwebai, wneud penderfyniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn cais i apelio. Os bydd y Llywydd yn gofyn am ragor o wybodaeth, mae gan yr ymgeisydd 14 diwrnod i ymateb, ac yna mae gan y Llywydd 14 diwrnod o dderbyn yr wybodaeth bellach i wneud penderfyniad. Fodd bynnag, mae’n bosibl y bydd gwahanol ddeongliadau o effaith cais am wybodaeth ychwanegol ar yr amserlen gan nad yw’n glir o bosibl a yw’r ‘cloc’ ar y 21 diwrnod yn dod i ben tra bo’r wybodaeth ychwanegol yn cael ei cheisio.

Ar ben hynny, nid yw’r rheoliadau’n rhoi cyfle i’r Ombwdsmon gyflwyno sylwadau a chynnal gwrandawiad rhagarweiniol i benderfynu a yw caniatâd i apelio yn bosibl os oes ‘amgylchiadau arbennig’, ond nid oes estyniad yn yr amser y darperir ar ei gyfer yn y rheoliadau i ganiatáu ar gyfer hyn.

Felly, mae’r Llywydd wedi cynnig dull gwahanol fel a ganlyn:

- cynghorydd yn anfon apêl; ni phennir dyddiad cau ar gyfer penderfyniad gan Banel Dyfarnu Cymru
- y Llywydd/y Cofrestrydd yn gwirio bod yr apêl wedi amgáu penderfyniad y Pwyllgor Safonau ac os nad yw, mae’n rhoi 7 diwrnod i’r cynghorydd ei ddarparu (ac mae ganddo’r pŵer i ofyn i’r swyddog monitro a yw’n dymuno gwneud hynny am y penderfyniad ac unrhyw wybodaeth arall)
- yr apêl yn cael ei hanfon at yr Ombwdsmon sy’n cael 14 diwrnod i roi sylwadau;
- yr apêl, penderfyniad y pwyllgor safonau ac unrhyw sylwadau gan yr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ombwdsmon yn cael eu rhoi gerbron y Llywydd (neu ei enwebai) ar gyfer penderfyniad ar y papurau; unwaith eto, ni fyddai dyddiad cau yn cael ei bennu ar gyfer penderfyniad;

- gall y Llywydd neu ei enwebai gyfarwyddo bod gwrandawiad rhagarweiniol yn cael ei gynnal os ydynt o'r farn ei bod er 'budd cyfiawnder' i wneud hynny yn hytrach nag 'amgylchiadau arbennig'

Byddem yn croesawu eich barn am y newidiadau arfaethedig hyn i'r weithdrefn caniatâd i apelio. Yn yr un modd, ynghylch a ddylid cael darpariaeth benodol i alluogi cynnal rhan neu'r holl wrandawiad yn breifat, a hefyd a ddylid cadw'r gofyniad i ddarparu dim llai na saith niwrnod o rybudd o ohirio gwrandawiad.

Mae cwestiynau am yr uchod wedi'u cynnwys yn y cwestiynau ymgynghori isod.

## Pwerau dedfrydu

Mae'r pwerau sydd ar gael i Banel Dyfarnu Cymru yn gyfyngedig ac roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo y dylid cael opsiwn i osod sancsiynau mwy amrywiol yn yr un modd â chyn-Banel Dyfarnu Lloegr.

Pan fo tribiwnlys achos yn penderfynu bod aelod wedi methu cydymffurfio â'r cod ymddygiad, nodir y sancsiynau y caiff eu gosod yn adran 79 o Ddeddf 2000. Caiff y tribiwnlys atal aelod dros dro am gyfnod o hyd at ddeuddeng mis neu ei wahardd am gyfnod o hyd at 5 mlynedd.

Mae gennym ddiddordeb yn eich barn ynghylch a ddylai ystod ehangach o sancsiynau fod ar gael i'r Panel ac os felly, beth ddylai'r rhain fod? Mae cwestiwn am hyn wedi'i gynnwys yn y cwestiynau ymgynghori isod.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Tribiwnlysoedd Achosion Interim

Mae gan yr Ombwdsmon y pŵer i wneud atgyfeiriadau interim i'r Panel os yw er budd y cyhoedd ac os oes tystiolaeth prima facie fod yr unigolyn wedi methu cydymffurfio â'r cod ymddygiad, y mae ei natur yn debygol o arwain at anghymwyso.

Mae rhanddeiliaid o'r farn bod y trothwy ar gyfer bodloni'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer atgyfeiriad interim yn rhy uchel, ond byddai unrhyw newid i'r pwerau hyn yn galw am ddeddfwriaeth sylfaenol gan Lywodraeth Cymru.

Y cynnig yw y dylid symleiddio'r broses gyfan drwy gymhwyso prawf tebyg i'r un a ddefnyddir gan y Tribiwnlysoedd Rheoleiddio megis y Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol. Byddai hwn yn ddiwygiad cymharol fach i'r prawf budd y cyhoedd presennol ond byddai'n gwneud y dull gweithredu i'w fabwysiadu a'r diffiniad o fudd y cyhoedd yn llawer cliriach. Byddai angen deddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru.

Hyd yma, ni fu unrhyw dribiwnlysoedd dros dro. Mae rhanddeiliaid wedi awgrymu mai'r rheswm pennaf am hyn yw bod y broses yr un fath ag ar gyfer tribiwnlys achos llawn. Felly ceir tybiaeth fod Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 yn rhwystr i'w diben bwriedig.

Mae adrannau 76, 77 a 78 o Ddeddf 2000 yn nodi aelodaeth tribiwnlysoedd interim, gallu'r person sy'n destun y dyfarniad i gael cynrychiolaeth briodol a'r sancsiwn y caiff tribiwnlys interim ei roi (uchafswm o ataliad unwaith-ac-am-byth, chwe-mis neu ataliad rhannol).

Felly, mae'n ymddangos nad yw'r broses a nodir ar hyn o bryd yn addas at y diben o gydbwyso, a pheidio â rhagfarnu, mynediad aelod etholedig at

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gyfiawnder mewn tribiwnlys achos, a budd y cyhoedd.

Felly, awgrymwyd bod y broses yn cael ei symleiddio drwy ddefnyddio prawf tebyg i'r un a ddefnyddir gan Dribiwnlysoedd Rheoleiddio megis y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol. Byddai'r tribiwnlys achos interim yn bwrw ymlaen ag aelod cyfreithiol yn eistedd ar ei ben ei hun, ac yn ystyried y cais ar sail y papurau'n unig, ond gyda'r gallu i wahodd sylwadau llafar gan y partïon pe bai'r aelod o'r farn bod hynny er budd cyfiawnder.

Fel nawr, byddai'r broses hefyd yn galluogi'r Ombwdsmon i gyflwyno cyfeiriad at Lywydd y Panel gydag adroddiad yn nodi'r cefndir a pham y ceisiwyd ataliad dros dro.

Ar y mwyaf, dim ond gwaharddiad o chwe mis (rhannol neu lawn) fyddai'n bosibl a gellid ei adnewyddu hyd at gyfanswm o hyd at dair gwaith (18 mis i gyd). Byddai'r aelod a gyhuddir yn cael cyfle i gyflwyno pam na ddylid gwneud yr ataliad dros dro, ond ni fyddai tystiolaeth yn cael ei galw a byddai adroddiad yr Ombwdsmon yn cael ei ystyried yn ei rinwedd ei hun, yn yr un modd ag adroddiad y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol.

Dyma ddull posibl o ymdrin **â**'r prawf budd y cyhoedd. Byddai'n briodol gwahardd neu wahardd aelod yn rhannol os yw'n ymddangos i'r tribiwnlys achos interim:

- y byddai tribiwnlys achos mewn gwrandawiad terfynol yn debygol o ddyfarnu bod methiant wedi bod i gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol dan sylw
- a bod natur y methiant hwnnw yn golygu ei fod yn debygol o arwain at anghymhwyso o dan adran 79(4)(b) o Ddeddf 2000
- a'i bod er budd y cyhoedd i atal neu atal yn rhannol yr aelod a gyhuddir ar unwaith er mwyn diogelu aelodau o'r cyhoedd, cynnal ffydd y cyhoedd mewn llywodraeth leol, cynnal safonau ymddygiad priodol, neu alluogi ymchwiliad

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gael ei gwblhau

Er mwyn cyflawni'r newid hwn yn llawn, byddai angen diwygio Deddf 2000 a Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001.

Felly, rydym yn gofyn am eich barn am y cynnig hwn a cham canolradd posibl i ddiwygio'r rheoliadau dim ond i symleiddio'r broses ar gyfer tribiwnlysoedd achos interim tan y cyfryw amser, os cefnogir y cynnig, y gellir newid y ddeddfwriaeth sylfaenol. Gallai diwygio'r rheoliadau gynnwys atodlen newydd yn benodol ar gyfer proses fyrrach, symlach ar gyfer tribiwnlysoedd dros dro. Mae cwestiwn am hyn wedi'i gynnwys yn y cwestiynau ymgynghori isod.

## Argymhelliad 11: Rôl Pwyllgorau Safonau

Pwerau ychwanegol i'w gwneud yn ofynnol i aelodau gael hyfforddiant angenrheidiol a'r pŵer i'w gwneud yn ofynnol i aelod ymddiheuro i'r achwynydd.

Dylai fod Fforwm Cymru gyfan ar gyfer Cadeiryddion Annibynnol Pwyllgorau Safonau a dylid ailsefydlu'r Gynhadledd flynyddol ar gyfer Cadeiryddion Annibynnol ac aelodau Annibynnol o Bwyllgorau Safonau.

### Ystyried Argymhelliad 11

Mae'r argymhellion sy'n ymwneud â phwerau pwyllgorau safonau i'w gwneud yn ofynnol i aelodau gael hyfforddiant angenrheidiol ac i fynnu ymddiheuriad i'r achwynydd yn ymwneud â'r rôl a gynigiwyd gan yr Adolygiad ar gyfer pwyllgorau safonau i fynd i'r afael â'r ddwy gŵyn yr ymdrinnir â nhw drwy'r broses datrys lleol ac unrhyw gwynion a gyfeiriwyd yn ôl i'w datrys yn lleol ar ôl eu cyfeirio at yr Ombwdsmon i ddechrau. Nid ydym yn credu bod angen rhagor o bwerau cyfreithiol ar bwyllgorau safonau i arfer y swyddogaethau hyn. Mae'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

swyddogaethau a roddwyd iddynt yn Neddf 2000 eisoes yn cynnwys hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad a helpu aelodau ac aelodau cyfetholedig i gydymffurfio â'r cod ymddygiad.

Rydym felly'n cynnig bod y rhain yn faterion y gellid eu hymgorffori mewn codau a phrotocolau lleol heb fod angen rhagor o ddeddfwriaeth. Rydym wedi cynnwys arweiniad ar y materion hyn yn y canllawiau statudol i bwyllgorau safonau mewn perthynas ag arfer y swyddogaethau newydd a roddir iddynt gan Ddeddf 2021.

Mae CLlLC wedi cytuno i gynnal fforwm Cymru gyfan ar gyfer cadeiryddion annibynnol pwyllgorau safonau ac mae cynhadledd safonau Cymru gyfan wedi cael ei hailsefydlu. Nid mater i Lywodraeth Cymru oedd y camau hyn, ond rydym yn eu cefnogi ac yn croesawu'n fawr sefydlu'r rhwydwaith ac ailgynnull y gynhadledd.

## Argymhelliad 12

Hygyrchedd y fframwaith safonau moesegol Gwneud y broses fframwaith yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

### Ystyried Argymhelliad 12

Rydym yn cytuno â'r adolygiad bod hyder y cyhoedd yn y Fframwaith yn hanfodol i'n democratiaeth leol. Un o'r camau i sicrhau hyder yw bod y broses yn hygyrch ac yn cael ei defnyddio'n gyson ledled Cymru. Byddwn felly'n gweithio gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru a swyddogion monitro i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Fframwaith a'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl os byddant yn ei ddefnyddio.

Byddem yn croesawu unrhyw farn ynghylch sut y gellid mynd ati i godi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ymwybyddiaeth er mwyn cynnwys pawb ledled Cymru. Mae cwestiwn am hyn wedi'i gynnwys yn y cwestiynau ymgynghori isod.

## Materion cysylltiedig eraill a godwyd mewn trafodaethau gyda rhanddeiliaid ar ôl cyhoeddi Adroddiad Adolygiad Penn

Yn ogystal â'r argymhellion a godwyd yn yr adroddiad ar yr Adroddiad, mae rhanddeiliaid wedi codi nifer o faterion eraill gyda ni ac rydym yn awr yn gofyn am sylwadau ar y canlynol.

### Hysbysebu am Aelodau Annibynnol o Bwyllgorau Safonau

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol bod hysbysebion ar gyfer swyddi gwag ar gyfer aelodau annibynnol o bwyllgorau safonau yn cael eu rhoi mewn papurau newydd lleol. Mae rhai rhanddeiliaid wedi dweud wrthym nad yw hyn yn creu maes o ymgeiswyr a'i fod yn gostus ac yn cymryd llawer o amser. Maent wedi awgrymu bod dulliau eraill o hysbysebu ac estyn allan drwy rwydweithiau cynghorau yn creu maes mwy ac yn cyrraedd ymgeiswyr o gefndiroedd mwy amrywiol. (Gweler rheoliad 13 o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001).

Felly, rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid dileu'r gofyniad i hysbysebu swyddi gwag ar gyfer aelodau annibynnol ar bwyllgorau safonau mewn papurau newydd. Mae cwestiwn am hyn wedi'i gynnwys yn y cwestiynau ymgynghori isod.

### Cyn-weithwyr cyngor yn eistedd fel aelodau annibynnol ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Bwyllgorau Safonau

Ar ôl cyfnod gras o ddeuddeg mis, gall cyn-weithwyr cyngor eistedd fel aelodau annibynnol ar bwyllgorau safonau cynghorau os nad oedd y cyngor hwnnw'n un o'u cyn-gyflogwyr, ond nid ar bwyllgor safonau'r cyngor a fu'n eu cyflogi, hyd yn oed os nad y cyngor hwnnw oedd eu cyflogwr diweddaraf.

Mae hyn yn golygu na all pob cyn-gyflogai, gan gynnwys y rheini a allai fod wedi gweithio'n rhan-amser i'r cyngor, efallai pan oeddent yn fyfyrwyr neu'n gynnar yn eu gyrfaoedd, eistedd fel aelodau annibynnol ar bwyllgor safonau'r un cyngor.

Mae rhanddeiliaid wedi awgrymu bod hyn yn anghymesur ac yn eithrio nifer fawr o ymgeiswyr o ansawdd uchel posibl rhag cyflwyno'u hunain fel aelodau neu gadeiryddion annibynnol. (Gweler rheoliad 7 o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001.)

Felly, rydym yn ceisio barn ynghylch a ddylid dileu'r gwaharddiad gydol oes ar gyn-weithwyr cyngor rhag bod yn aelodau annibynnol o bwyllgor safonau eu cyn-gyflogwr.

Os felly, beth fyddai'n hyd addas ar gyfer cyfnod gras rhwng cyflogaeth a phenodi i bwyllgor safonau ac a ddylai hyn fod yr un fath ar gyfer holl weithwyr cynghorau, neu'n hirach ar gyfer y rheini a oedd mewn swyddi dan gyfyngiadau statudol neu wleidyddol yn y gorffennol fel y'u diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, er enghraifft y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid, y Swyddog Monitro a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd?

Mae cwestiwn am hyn wedi'i gynnwys yn y cwestiynau ymgynghori isod.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn diweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cyn-gynghorwyr yn eistedd fel aelodau annibynnol ar Bwyllgorau Safonau

Hefyd, ar ôl cyfnod gras o ddeuddeg mis, gall cyn-gynghorwyr eistedd fel aelodau annibynnol ar bwyllgorau safonau cynghorau na chawsant eu hethol iddynt. Fodd bynnag, mae gwaharddiad gydol oes arnynt rhag gwasanaethu fel aelodau annibynnol ar bwyllgor safonau'r cyngor y cawsant eu hethol iddo. (Gweler rheoliad 6 o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001.)

Erbyn hyn, nid oes cyfnod gras i gynghorwyr sy'n cael eu cyflogi gan y cyngor y cawsant eu hethol iddo'n ffurfiol ac felly rydym hefyd yn ceisio barn ynghylch a ddylid dileu'r gwaharddiad gydol oes ar wasanaethu fel aelod annibynnol ar bwyllgor safonau'r cyngor y cafodd cynghorydd ei ethol iddo.

Os ydych chi'n meddwl y dylai fod cyfnod gras, beth fyddai'n gyfnod addas yn eich barn chi? Mae cwestiwn am hyn wedi'i gynnwys yn y cwestiynau ymgynghori isod.

## Pwyllgorau Safonau Galw Tystion a Sancsiynau

Rôl y pwyllgor safonau yw ystyried adroddiad ac argymhellion gan swyddog monitro neu adroddiad gan yr Ombwdsmon ac, ar ôl clywed sylwadau gan y person yr ymchwilir iddo neu ar ei ran, penderfynu a dorrwyd cod ymddygiad yr awdurdod ai peidio ac, os felly, penderfynu ar y sancsiwn. Gall y pwyllgor safonau hefyd ofyn i'r swyddog monitro neu'r Ombwdsmon ddod ger ei fron er mwyn, ymhlith pethau eraill, esbonio eu hadroddiad. Darperir ar gyfer hyn yn Rheoliad 8(3A) o'r Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol.

Fodd bynnag, nid oes gan bwyllgorau safonau y pŵer o dan naill ai Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 na Rheoliadau Pwyllgorau Safonau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

(Cymru) 2001 i alw tystion. Mae yna farn, pe bai'r pwyllgor safonau yn cael y pŵer i alw tystion, y gellir ystyried ei fod yn tresmasu ar rôl yr ymchwilwyr, h.y. y swyddog monitro a'r Ombwdsmon a bod ei rôl fel penderfynwr yn cael ei chymylu.

Mae rhai rhanddeiliaid hefyd wedi awgrymu bod y sancsiynau presennol sydd ar gael i bwyllgorau safonau yn Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 yn rhy anhyblyg a/neu ddim yn rhwystr digon cryf. Mae'r sancsiynau presennol yn galluogi pwyllgor safonau i geryddu, atal dros dro neu atal aelod yn rhannol am gyfnod o hyd at 6 mis.

Felly, rydym yn gofyn am farn ar y materion hyn ac mae cwestiwn wedi'i gynnwys yn y cwestiynau ymgynghori isod.

# Cwestiynau'r Ymgynghoriad

## Cwestiwn 1

Ydych chi'n cytuno y dylid diwygio'r rheoliadau perthnasol sy'n ymwneud â'r Fframwaith Safonau Moesegol i gyd-fynd â'r diffiniadau sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac y dylem ddiwygio'r diffiniad o gydraddoldeb a pharch yn adran 7 o Orchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001?

## Cwestiwn 2

A ddylai Panel Dyfarnu Cymru (y Panel) allu rhoi Gorchmynion Adrodd Cyfyngedig?

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cwestiwn 3

A ddylid cael darpariaeth gyfreithiol benodol i alluogi'r Panel i sicrhau bod tystion yn aros yn ddienw?

## Cwestiwn 4

Ydych chi'n cefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r weithdrefn caniatâd i apelio a amlinellir yn yr argymhelliad hwn? Os nad ydych, pa opsiynau eraill fyddech chi'n eu hawgrymu?

## Cwestiwn 5

A ddylid cael pŵer penodol i'r Panel alw tystion i dribiwnlysoedd apêl?

## Cwestiwn 6

A ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r drefn ar gyfer cyfeirio penderfyniadau apeliadau yn ôl i bwyllgorau safonau?

## Cwestiwn 7

Ydych chi'n cytuno y dylid cael darpariaeth benodol i alluogi cynnal rhan neu'r cyfan o wrandawiadau tribiwnlys yn breifat?

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cwestiwn 8

Ydych chi’n cytuno y dylid cadw’r gofyniad i roi dim llai na saith niwrnod o rybudd o ohirio gwrandawiad?

## Cwestiwn 9

A ddylai ystod ehangach o sancsiynau fod ar gael i’r Panel, ac os felly, beth ddylai’r sancsiynau fod?

## Cwestiwn 10a

Ydych chi o blad y diwygiadau arfaethedig i’r broses ar gyfer tribiwnlysoedd achos interim a amlinellir yn yr argymhelliad hwn? Os nad ydych, esboniwch pam.

## Cwestiwn 10b

Os ydych chi o blaid y newidiadau i’r broses ar gyfer tribiwnlysoedd achos interim, ydych chi’n cytuno y dylid sefydlu trefniant canolradd, h.y. drwy fyrhau a symleiddio’r broses ar gyfer tribiwnlysoedd achos interim yn Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001? Os ydych chi, oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid symleiddio’r broses hon o fewn y rheoliadau?

## Cwestiwn 11

Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr argymhellion a wnaethpwyd yng

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

nghyswllt gweithrediad y Panel?

## Cwestiwn 12

Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid bwrw ymlaen â gwaith i godi ymwybyddiaeth o'r Fframwaith Safonau Moesegol, yn enwedig ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010?

## Cwestiwn 13

Hysbysebu am aelodau annibynnol o bwyllgorau safonau: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gofyniad i hysbysebu swyddi gwag ar gyfer aelodau annibynnol ar bwyllgorau safonau mewn papurau newydd?

## Cwestiwn 14a

Cyn-weithwyr cyngor yn eistedd fel aelodau annibynnol o bwyllgorau Safonau: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gwaharddiad gydol oes ar gyn-weithwyr cyngor rhag bod yn aelodau annibynnol o bwyllgor safonau eu cyflogwr blaenorol?

## Cwestiwn 14b

Os ydych chi, beth, yn eich barn chi, fyddai'n gyfnod gras addas rhwng cyflogaeth a phenodi i bwyllgor safonau, ac a ddylai hyn fod yr un fath ar gyfer holl weithwyr cynghorau, neu'n hirach ar gyfer y rheini a oedd gynt mewn swyddi â chyfyngiadau statudol neu wleidyddol?

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cwestiwn 15

Cyn-gynghorwyr yn eistedd fel aelodau annibynnol o bwyllgorau safonau: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gwaharddiad gydol oes ar wasanaethu fel aelod annibynnol ar bwyllgor safonau'r cyngor y cafodd cynghorydd ei ethol iddo? Os ydych chi, beth fyddai'n gyfnod gras addas yn eich barn chi?

## Cwestiwn 16

Pwyllgorau safonau galw tystion a sancsiynau: A ddylai pwyllgorau safonau gael y pŵer i alw tystion?

## Cwestiwn 17

Ydych chi'n cytuno y dylid newid neu ychwanegu at y sancsiynau y gall pwyllgor safonau eu gosod?

## Cwestiwn 18

Pa effeithiau y byddai'n eu cael yn eich barn chi?

## Cwestiwn 19

Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cwestiwn 20

Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r diwygiadau arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## Cwestiwn 21

Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar y materion a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn, gan gynnwys ar yr argymhellion hynny yn yr Adroddiad nad oes cwestiwn penodol wedi'i gynnig ynglŷn â hwy?

# Sut i ymateb

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn **23 Mehefin 2023**, drwy unrhyw un o'r ffyrdd a ganlyn:

- llenwi ein **ffurflen ar-lein**
- lawrlwytho, llenwi ein **ffurflen ymateb** a'i hanfon ar e-bost at **YmatebionYmgynghoriadPenn@llyw.cymru**
- lawrlwytho, llenwi ein **ffurflen ymateb** a'i phostio i:

Yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

CF10 3NQ

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i’w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu ‘dileu’
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi’n gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech i’ch ymateb aros yn ddienw, **dywedwch wrthym ni**.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

## Y Swyddog Diogelu Data

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

E-bost: **data.protectionofficer@llyw.cymru**

## Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn : 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: **ico.org.uk**

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ni fydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud oni bai ei fod yn cael ei wneud o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel. Er mwyn dangos bod yr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ymgynghoriad wedi cael ei gynnal mewn modd priodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion.

Dylech hefyd wybod am ein dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Rhif: WG47012

Gallwch weld y ddogfen hon mewn **ieithoedd amgen**. Os ydych am gael y ddogfen mewn fformat gwahanol, **cysylltwch â ni**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-argymhellion-yr-adolygiad-annibynnol-or-fframwaith-safonau-moesegol-adroddiad-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad: WG47012

Eich enw: Iwan Evans

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Cyngor Gwynedd

Cyfeiriad e-bost/rhif ffôn: iwangdevans@gwynedd.llyw.cymru

Eich cyfeiriad: Swyddfeydd y Cyngor , Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd

### Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Nid ydym yn gofyn am ymatebion penodol ar yr holl argymhellion. O ystyried y trafodaethau a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol, mae ymatebion Gweinidogion Cymru i'r argymhellion yn cynnwys nifer o awgrymiadau ar gyfer newid deddfwriaethol; yn tynnu sylw at rai camau yr aethpwyd i'r afael â hwy ers cyhoeddi'r Adroddiad heb fod angen deddfwriaeth; rhai awgrymiadau ynghylch camau gweithredu heb fod angen deddfwriaeth, ac awgrymiadau pellach ar gyfer gwelliannau, sydd wedi'u nodi mewn trafodaethau â rhanddeiliaid ers cyhoeddi'r Adroddiad.

Fodd bynnag, mae cwestiwn cyffredinol ar ddiwedd y cwestiynau ymgynghori lle gallwch ychwanegu eich sylwadau ar yr argymhellion nad oes cwestiwn penodol ar eu cyfer isod, neu os ydych am wneud unrhyw sylwadau eraill ar y ddogfen ymgynghori.

### Argymhelliad 4

C1. Ydych chi'n cytuno y dylid diwygio'r rheoliadau perthnasol sy'n ymwneud â'r Fframwaith Safonau Moesegol i gyd-fynd â'r diffiniadau sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010 ac y dylem ddiwygio'r diffiniad o gydraddoldeb a pharch yn adran 7 Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 (legislation.gov.uk)?

Ydym

Sylwadau: Hanfodol fod y Fframwaith y Gyfredol

**Argymhelliad 10**

**C2. A ddylai Panel Dyfarnu Cymru (y Panel) allu rhoi Gorchmynion Adrodd Cyfyngedig?**

Dylai

Sylwadau: Mae unrhyw gamau a weithredir a all arwain at ddiarddel cynghorydd etholedig o bwysigrwydd sylfaenol i'r etholaeth a dylid sicrhau tryloywder yn y fath achosion. Gall honiadau o dorri'r cod godi o amrediad eang o sefyllfaoedd ffeithiol ac mae'n bur bosib y gall rhai o'r rhain fod yn amgylchiadau lle byddai adrodd cyfyngedig yn ddymunol e.e. pan fo gwrandawiad yn cynnwys plant dan oed. Mae corff digonol o gyfreitheg wedi'i sefydlu i ddangos pwysigrwydd adrodd yn agored a phryd y mae cyfyngu ar adrodd yn briodol ar gyfer defnyddio grym o'r fath yn bwyllog.

**C3. A ddylid cael darpariaeth gyfreithiol benodol i alluogi'r Panel i sicrhau bod tystion yn aros yn ddienw?**

Dylid

Sylwadau: Gall honiadau o dorri'r cod godi o amrediad eang o sefyllfaoedd ffeithiol. Mae'r achos yn bennaf ynglŷn a'r aelod etholedig a'i hymddygiad yn hytrach nac ymdrin a hawliau neu hawliadau eraill. Mae'n bur bosib felly y gall rhai o'r amgylchiadau lle byddai tystion yn teimlo nad ydynt yn fodlon rhoi tystiolaeth yn gyhoeddus oherwydd effaith e.e ar eu bywyd personol. Byddai caniatáu tystion i aros yn ddienw lle'n briodol yn lleihau'r risg yma ac felly'n cynyddu'r tebygolrwydd y byddent yn cymryd rhan. Mewn ffordd, gallai niweidio gweinyddu cyfiawnder os yw tystion yn gwrthod rhoi tystiolaeth oherwydd diffyg grym i sicrhau eu bod yn aros yn ddienw. Fodd bynnag, mae hi'r un mor bwysig i sicrhau y cedwir at gyfiawnder naturiol ac i sicrhau bod yr aelod cyhuddedig yn medru amddiffyn yr achos a ddwynir yn ei erbyn yn llawn, a byddai hyn yn cynnwys gwybod pwy sydd wedi ei gyhuddo.

**C4. Ydych chi'n cefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r weithdrefn caniatâd i apelio a amlinellir yn yr argymhelliad hwn? Os nad ydych, pa opsiynau eraill fyddech chi'n eu hawgrymu?**

Ydym

Sylwadau: Mae'n ymddangos yn briodol y dylai'r Ombwdsman allu gwneud sylwadau ar geisiadau am ganiatâd i apelio ac y dylai'r broses ganiatáu amser i wneud sylwadau.

Dylid fod gofyn penodol hefyd i hysbysu Swyddog Monitro perthnasol yn syth hefyd fod apêl wedi ei derbyn gan fod bodolaeth apêl yn ganolog i gychwyn cyfnod atal neu beidio.

**C5 A ddylid cael pŵer penodol i'r Panel I alw tystion i dribiwnlysoedd apêl?**

Dylid

Sylwadau: Byddai'n amlwg yn groes i fudd cyfiawnder pe na fyddai tyst yn medru mynychu gwrandawiad.

**C6. A ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r drefn ar gyfer cyfeirio penderfyniadau apeliadau yn ôl i bwyllgorau safonau?**

Na ddylid

Sylwadau: mae'r arfer wedi'i hen sefydlu y dylai tribiwnlysoedd apêl gyfeirio achosion yn ôl i'r prif benderfynydd i gael eu hailystyried. Er mai 'dewr' fyddai Pwyllgor Safonau a feiddia anghytuno â'r Panel byddai'r newid arfaethedig yn gwneud i ffwrdd â'r hawl iddynt gael dewis gwneud hynny a byddai hyn yn lleihau eu rhyddid i weithredu.

**C7. Ydych chi'n cytuno y dylid cael darpariaeth benodol i alluogi cynnal rhan neu'r cyfan o wrandawiadau tribiwnlys yn breifat?**

Ydym

Sylwadau: Gweler y sylwadau uchod mewn ymateb i Gwestiwn 3

C8 Ydych chi'n cytuno y dylid cadw'r gofyn i roi dim llai na saith niwrnod o rybudd o ohirio gwrandawiad?

Ydym/Nac ydym: (dileer fel y bo'n briodol)

Sylwadau: (Dewisol)

**C9. A ddylai ystod ehangach o sancsiynau fod ar gael i'r Panel, ac os felly, beth ddylai'r sancsiynau fod?**

Dylai

Sylwadau: Mae lle i ddadlau'n dros gael amrediad ehangach a mwy hyblyg o rymoedd sancsiynau yn unol â'r rhai oedd ar gael yn Lloegr. Dylid cael y grym i orchymyn mynychu hyfforddiant neu i ymddiheuro yn ychwanegol i'r grymoedd sy'n bodoli eisoes. Dylai'r rhain hefyd fedru cael eu hatal ar amod er enghraifft,

fel bod cynghorydd yn cael ei atal oni bai ei fod ef/bod hi yn ymddiheuro'n briodol o fewn 30 diwrnod. Mynegwyd y farn y gall ymddiheuriad gorfodol, a all fod yn wenieithus, dynnu sylw oddi ar y cerydd cryf a chlir a gyflwynir gan y Tribiwnlys Achos ei hun.

**C10 Ydych chi o blaid y diwygiadau arfaethedig i'r broses ar gyfer tribiwnlysoedd achos interim a amlinellir yn yr argymhelliad hwn? Os nad ydych, esboniwch pam.**

Ydym

Sylwadau: Ar hyn o bryd, mae gwneud cais am orchymyn atal interim yn rhy anodd ac mae hynny'n peri risg sylweddol mewn nifer fechan o achosion. Er enghraifft, pan fo digon o bryder diogelu am weithiwr proffesiynol, dan Ran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru mae modd ei atal yn rhannol yn amodol ar ymchwiliad er mwyn amddiffyn unigolion bregus a'r cyflogwr. Nid oes darpariaeth o'r fath yn bodoli o ran cynghorwyr/aelodau. Yn yr un modd mae'n bosib fod yna enghreifftiau o gamymddwyn difrifol arall megis bwlio eithafol neu lygredigaeth lle y byddai atal am gyfnod dros dro yn helpu i amddiffyn tystion a budd y cyhoedd. Y brif farn yw, er mwyn amddiffyn tystiolaeth, y *status quo* neu enw da cyngor, gall fod amgylchiadau pan fyddai atal yn y cyfamser yn briodol.

Wrth gwrs, byddai angen i'r Tribiwnlys Achos Interim fod yn ymwybodol o effaith democrataidd bosib atal aelod a all adael ward sengl heb gynrychiolaeth. Yn bwysicach fodd bynnag, gallai hefyd effeithio ar gydbwysedd gwleidyddol cyngor, a gall hynny beri ansefydlogrwydd gwleidyddol.

Dylai fod gan yr Tribiwnlys Achos Interim y grym felly i atal yn rhannol pan fyddai hynny'n ddigonol i amddiffyn y *status quo* e.e. atal cynghorydd o'r Pwyllgor Cynllunio pan mae wedi'i gyhuddo o dderbyn cil-dyrnau mewn perthynas â cheisiadau cynllunio.

Gan gymryd fod gorchmynion atal dros dro yn mynd i ymdebygu i'r broses atal rhag gweinyddu all fod yn berthnasol i weithwyr yna ni ddylai unrhyw orchymyn atal dros dro atal lwfansau'r cynghorwyr.

Noder y mynegwyd y farn hefyd, er bod cyfnod atal gweinyddol yn fater cyfrinachol i weithwyr, byddai pobl yn sylwi pe bai cynrychiolydd etholedig yn cael ei atal hyd yn oed am gyfnod dros dro. Gallai hyn gael effaith etholiadol negyddol ar gynghorydd a all fod yn ddieuog o unrhyw ddrwg-weithredu.

C10b. Os ydych chi o blaid y newidiadau i'r broses ar gyfer tribiwnlysoedd achos interim, ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu trefniant canolradd, h.y. drwy fyrhau a symleiddio'r broses ar gyfer tribiwnlysoedd achos interim yn Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001?

**Os ydych chi, oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid symleiddio'r broses hon o fewn y rheoliadau?**

Ydym

Sylwadau: (Dewisol)

**C11. Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr argymhellion a wnaethpwyd yng nghyswllt gweithrediad y Panel**?

Nac oes

Sylwadau: (Dewisol)

**Argymhelliad 12**

C12. Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid bwrw ymlaen â gwaith i godi ymwybyddiaeth o'r Fframwaith Safonau Moesegol, yn enwedig ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010?

Sylwadau: Yn anecdotaidd, byddai'n ymddangos fod ystod eang o bobl eisoes yn ymwybodol o'r system. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad oes modd gwybod os oes cwyn ddilys bosib heb ei hymchwilio oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o'r broses. Gellid cynhyrchu deunyddiau hyrwyddo a'u rhannu â chyrff sy'n cynrychioli grwpiau o'r fath a bydd gan bob cyngor rwydwaith o sefydliadau lleol o'r fath. Mae hwn yn faes lle y byddai gweithredu'n ganolog mewn dull wedi'i gydlynu yn arbed dyblygu amser ac ymdrech. Dylid comisiynu un corff i gynhyrchu'r deunyddiau hyn ar y cyd â'r Ombwdsman, CLlLC a Chyfreithwyr Llywodraeth Leol.

**Materion perthnasol eraill y tu hwnt i'r Adroddiad Adolygu**

**C13. Hysbysebu am aelodau annibynnol o'r pwyllgorau safonau: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gofyn i hysbysebu swyddi gwag ar gyfer aelodau annibynnol ar bwyllgorau safonau mewn papurau newydd?**

Ydym

Sylwadau: Mae costau hysbysebion o'r fath yn uchel a dengys profiad anecdotaidd fod y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dod trwy sianeli eraill megis gwefannau neu rwydweithiau presennol Aelodau Unigol. Mae'n bwysicach sicrhau bod ymgeiswyr cymwys o amrediad eang o gefndiroedd yn cael eu denu i'r rôl ac felly dylai LlC gyflwyno canllawiau ar recriwtio cynhwysol.

**C14a. Cyn-weithwyr cyngor yn eistedd fel aelodau annibynnol o bwyllgorau safonau: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gwaharddiad gydol oes ar gyn-**

**weithwyr cyngor rhag bod yn aelodau annibynnol o bwyllgor safonau eu cyflogwr blaenorol?**

Nac ydym. Cryfder y Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd yw bod yn rhaid iddynt gynnwys mwyafrif o Aelodau Annibynnol y gellid dweud heb amheuaeth eu bod yn wirioneddol annibynnol ac yn amhleidiol.

**C14b. Os ydych chi, beth, yn eich barn chi, fyddai'n gyfnod gras addas rhwng cyflogaeth a phenodi i bwyllgor safonau, ac a ddylai hyn fod yr un fath ar gyfer holl weithwyr cynghorau, neu'n hirach ar gyfer y rheini a oedd gynt mewn swyddi â chyfyngiadau statudol neu wleidyddol?**

Ni ddylai swyddogion sydd wedi'u cyfyngu'n wleidyddol fedru gwasanaethu fel Aelodau Annibynnol. O ran swyddogion eraill, mae'r safbwynt hwnnw'n fwy cynnil ond awgrymir nad ddylid caniatáu hyn. Os, er gwaethaf y farn hon, yw LlC yn dymuno caniatáu iddynt fod yn gymwys yna mae angen i'r cyfnod gras ar gyfer cyn-weithwyr fod yn hir i leihau'r canfyddiad fod y cyn-weithiwr dal yn cael ei effeithio oherwydd ei gysylltiad blaenorol â'r cyngor. Dylid gosod y cyfnod gras yn gyfnod penodol o megis 5 mlynedd neu gellid bod yn hyblyg ar sail hyd eu gwasanaeth (lluosog) gyda neu heb leiafswm.

**C15. Cyn-gynghorwyr yn eistedd fel aelodau annibynnol o bwyllgorau Safonau:**

Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gwaharddiad gydol oes ar wasanaethu fel aelod annibynnol ar bwyllgor safonau'r cyngor y cafodd cynghorydd ei ethol iddo? Os ydych chi, beth fyddai'n gyfnod gras addas yn eich barn chi?

Nac ydym

Sylwadau (Dewisol): Mae rôl cynghorydd, hyd yn oed y rhai nad ydynt mewn pleidiau gwleidyddol cenedlaethol, wastad yn rôl wleidyddol. Mae cyfansoddiad pwyllgorau a strwythur aelodaeth ar hyn o bryd yn sicrhau bod Aelodau Annibynnol yn cael eu gweld yn gwbl annibynnol o wleidyddiaeth leol. Byddai gwneud i ffwrdd â hyn yn gwanio'r amddiffyniad hwnnw.

**C16. Pwyllgorau safonau – galw tystion a sancsiynau: A ddylai pwyllgorau safonau gael y pŵer i alw tystion?**

Dylai

Sylwadau: Mae'r un ystyriaethau a gyflwynwyd yn yr ymateb i Gwestiwn 5 yn berthnasol fan hyn. Heb ei bwerau i ymdrin â dirmyg, byddai angen modd o orfodaeth ar y mecanwaith i gyflwyno gwŷs, megis efallai'r pŵer i geisio am warant gan Lys yr Ynadon.

**C17. Ydych chi'n cytuno y dylid newid neu ychwanegu at y sancsiynau y gall pwyllgor safonau eu gosod?**

Ydym

Os felly, pa sancsiynau fyddech chi'n eu hawgrymu? Gweler yr ymateb i Gwestiwn 9. Dylai'r un pŵer i gyflwyno sancsiynau amodol fod yn berthnasol i'r Pwyllgor Safonau felly hefyd y pwerau i fynnu ymddiheuriad a/neu hyfforddiant.

**Y Gymraeg**

**Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r newidiadau uchod i'r Fframwaith a'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn eu cael ar y Gymraeg; yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**C18. Pa effeithiau y byddai'n eu cael yn eich barn chi?**

Dim, boed hynny'n negyddol neu'n gadarnhaol. Ymddengys y byddai'r cynigion hyn yn niwtral o ran eu heffaith

**C19. Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?**

**C20. Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r diwygiadau arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**C21. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar y materion a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn, gan gynnwys ar yr argymhellion hynny yn yr Adroddiad nad oes cwestiwn penodol wedi'i gynnig ynglŷn â hwy**?

Oes

Sylwadau:

Mae'r sector llywodraeth leol wedi ymateb yn gadarnhaol ar y cyfan i Adroddiad Penn. Fel mae'r ymgynghoriad yn cydnabod, rydym wedi cymryd cyfrifoldeb am ein rheoleiddio ac wedi cydweithio ers ei gyhoeddi i fabwysiadu nifer o'r argymhellion lle nad oes angen newid deddfwriaethol. Hyd yn hyn rydym wedi:

i. cynnal cynhadledd safonau genedlaethol bellach (oedd yn syml wedi'i gohirio gan y pandemig);

ii. sefydlu fforwm cenedlaethol i gadeiryddion Pwyllgorau Safonau i efelychu, a disodli'r fforwm a fodolodd am beth amser yng ngogledd Cymru (ac a gafodd wedyn ei ymestyn i gynnwys awdurdodau o Ganolbarth Cymru yn ogystal); a

iii. rydym ar hyn o bryd yn gweithio i gysoni'r trothwy ar gyfer datgan rhoddion a lletygarwch ar lefel arfaethedig o £25, ac mae pob awdurdod yng Nghymru gyda gwahanol drothwy wedi ymrwymo i gyflwyno'r newid hwnnw i'w Bwyllgor Safonau. Fel rhan o dryloywder ehangach byddai'n bosib i gynghorau annog datgan pob rhodd a dderbynnir.

Mae dau argymhelliad sy'n gofyn am newid deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynigion gweithredu ar eu cyfer. Byddai y Cyngor yn dymuno gweld gweithredu deddfwriaethol i gefnogi'r argymhellion a ganlyn:

1) Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynnig i'w gwneud yn fandadol i gynghorydd adrodd am ei ymddygiad troseddol ei hun, sy'n ymddangos yn afresymegol pan fo gorfodaeth i eraill wneud hynny.

2) Byddai darpariaeth o fewn y cod fod hyfforddiant yn orfodol yn cryfhau unrhyw ymdrech i berswadio'r cynghorydd hwnnw i fynychu. Ymhellach, pe bai ymdrechion i argyhoeddi'r cynghorydd i fynychu yn profi i fod yn aflwyddiannus byddai darpariaeth o'r fath wedyn o leiaf yn darparu sail gadarn i ymdrin â'u cyndynrwydd.

   Byddai'r Cyngor (ar farn mwyafrif) felly'n cefnogi cynnwys ymrwymo i gwblhau hyfforddiant o fewn y datganiad derbyn swydd, fyddai'n ymddangos yn fecanwaith addas. Yn yr un modd, gallai'r cod model gynnwys ymrwymiad i gwblhau hyfforddiant. Gallai hyn fod un ai i hyfforddiant ar y cod ei hun neu i gwblhau unrhyw hyfforddiant y mae'r cyngor yn ei ddiffinio fel gofynnol i alluogi mwy o ddisgresiwn lleol.

   Noder y mynegwyd y farn hefyd pe bai cynghorydd yn cael ei ethol yn benodol ar blatfform na fyddai ef yn mynychu hyfforddiant yna byddai'n anghywir cyflwyno unrhyw gosb am fethu â mynychu.

   Ymhellach, gwnaed sylw fod clercod yn rhan bwysig o strwythur llywodraethu cynghorau tref a chymuned. Er bod darpariaeth wedi'i gwneud sy'n disgwyl i gynghorwyr fynychu hyfforddiant, nid oes ymrwymiad tebyg o ran y clercod, ac fe ddylai fod.

3) Mae mater wedi codi'n ddiweddar ynghylch pwerau'r Ombwdsman i wneud cyfeiriadau pan fo cynghorydd hefyd ar awdurdod perthnasol arall (h.y. awdurdod gyda'i bwyllgor safonau ei hun). Ar hyn o bryd, nid oes pŵer

penodol i'r Ombwdsman gyfeirio achosion i fwy nag un awdurdod ar yr un amser. Efallai y bydd hyn yn angenrheidiol yn ddibynnol ar p'un a fyddai canfyddiad y pwyllgor safonau mewn prif awdurdod hefyd yn rhwymo awdurdod perthnasol megis parc neu awdurdod tân.

E.e pan fo cynghorydd yn cael ei atal gan gyngor sir am weithrediadau yn ei fywyd preifat sy'n dwyn anfri ar eu swydd. Mae'r cynghorydd hefyd ar awdurdod tân. Gall y gweithrediadau hynny hefyd ddwyn anfri ar eu swydd ar yr awdurdod tân. A yw'r cyfnod atal o'r cyngor sir hefyd yn atal y cynghorydd yn awtomatig o'r awdurdod tân neu a fyddai pwyllgor safonau'r awdurdod tân ei hun angen gwrando ar y mater? Ymddengys mai'r olaf yw'r sefyllfa fwyaf tebygol.

Pe bai angen i'r Awdurdod Tân ac Achub gynnal ei wrandawiad ei hun, yna gall fod yn ddefnyddiol rhoi'r pŵer i OGCC wneud cyfeiriad i sawl awdurdod yr un pryd (y gellid ei ddehongli trwy ddefnyddio'r rheolau dehongli statudol fod yr unigol yn golygu'r lluosog hefyd). I'r gwrthwyneb, os tybir nad yw penderfyniad pwyllgor safonau'r prif gyngor yn effeithio ar yr awdurdod tân yna gellir diffinio hyn mewn deddfwriaeth o ran graddau'r cyfnod atal a beth mae'r term 'atal' yn ei olygu gan nad oes diffiniad technegol ohono mewn unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch fan hyn:

☐

Diolch am roi o'ch amser i ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi maes o law.

# Eitem 7

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD** | **26 Mehefin 2023** |
| **TEITL** | **Hunan Asesiad a Rhaglen Waith** |
| **AWDUR** | **Swyddog Monitro** |

1. Mae dau fwriad ar gyfer yr adroddiad yma sef cynnal hunan asesiad o waith ac allbynnau'r Pwyllgor yn ystod 2022-23 ac ystyried rhaglen waith drafft ar gyfer 2023-24

2. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau wedi gosod drwy statud yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac mae'n amserol efallai fod y Pwyllgor yn talu sylw newydd ar y rhain ar ddechrau tymor newydd er ffurfio cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn.

   (a) Hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig yr Awdurdod;

   (b) Cynorthwyo'r Cynghorwyr a'r Aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau;

   (c) Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau;

   (ch) Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau;

   (d) Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad Aelodau.

   (e) a'r swyddogaethau penodol yma

   (f) Ymarfer y swyddogaethau perthnasol uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned

   (g) monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor â'u dyletswyddau o dan adran 52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000;

   (h) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny.

3. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor ystyried y swyddogaethau a restrir yn y golofn gyntaf ac yna nodi pa asesiad mae'n credu sy'n berthnasol iddynt gan ddefnyddio'r categorïau canlynol:

   Categori 1 – Fod y Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn cyflawni'r

swyddogaeth neu yn achos tasgau penodol nid yw’r angen i weithredu wedi codi.

Categori 2 - Fod y Pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth yn sylweddol

Categori 3 - Fod y Pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth ond mae angen rhoi sylw pellach.

Categori 4 - Nid oes tystiolaeth fod y Pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth ac mae sail i awgrymu fod angen rhoi sylw i’r maes.

Mae angen nodi’r dystiolaeth sy’n cefnogi’r categori mae’r Pwyllgor yn ei ddyfarnu. Mae’r golofn “Tystiolaeth” yn dangos peth enghreifftiau o dystiolaeth ond mae’n bosib y bydd aelodau’r Pwyllgor yn gallu ychwanegu ati.

4. O ddyfarnu categori i bob swyddogaeth a nodi’r dystiolaeth bydd yn bosib i’r Pwyllgor ddod i gasgliad ynglŷn â pha gamau ychwanegol sydd angen eu cymryd (os o gwbl). Mae’r golofn olaf yn cynnwys rhai awgrymiadau am gamau pellach fydd yn bwydo trwodd i raglenni gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol.

6. Atodiadau

Yn Atodiad 1 ceir hunan asesiad drafft er ystyriaeth gan y Pwyllgor

Yn Atodiad 2 Rhaglen Waith drafft ar gyfer 2022-24

**ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i’r Pwyllgor gynnal Hunan Asesiad o’r perfformiad yn 2022- 23 ynghyd a chymeradwyo rhaglen waith ar gyfer 2023-24**

**ATODIAD 1**

**HUNAN ASESIAD Y PWYLLGOR SAFONAU 2022/23**

| SWYDDOGAETH | ASESIAD (1/2/3/4) | Tystiolaeth | Camau pellach |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau | | Mae'r Cadeirydd ac Is Gadeirydd wedi Fforwm Safonau Cymru i rannu profiadau hefo pwyllgorau safonau eraill.<br><br>Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor Llawn<br><br>Pwyllgor wedi derbyn adroddiad ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau ( Cymru ) 2021 | Parhau i fynychu a chefnogi |
| Cynorthwyo'r aelodau i gadw at y Cod Ymddygiad | | Swyddog Monitro a'i dim yn darparu cyngor ac arweiniad mewn cyfarfodydd ac ar sail un i aelodau. | |
| Cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad | | Dim achlysur wedi codi i ddiwygio'r Cod. | |
| Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad | | Derbyn adroddiadau rheolaidd o honiadau yn erbyn aelodau<br><br>Derbyn adroddiadau blynyddol yr Ombwdsman a Phanel Dyfarnu Cymru | Parhau i fonitro ystyried dulliau amgen o dderbyn gwybodaeth<br><br>Derbyn adroddiadau rheolaidd o Lyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsman<br><br>Derbyn adroddiadau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | blynyddol am y gofrestr buddiannau a lletygarwch. |
| Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ar faterion yn ymwneud a’r Cod Ymddygiad | | Cynhaliwyd hyfforddiant anwytho ar gyfer holl aelodau Cyngor Gwynedd yn dilyn yr etholiadau. | Angen edrych ar ddarparu hyfforddiant newydd |
| Rhoi goddefebau i aelodau | | Ceisiadau wedi eu ystyried dan y drefn newydd. | |
| Ymdrin ag adroddiadau o dribiwnlys achos ac unrhyw adroddiadau gan y Swyddog Monitro ar faterion a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon | | Cynhaliwyd 1 gwrandawiad yn ystod y flwydd ynglŷn ag Aelod Cyngor Tref a Chymuned | |
| Awdurdodi’r Swyddog Monitro i dalu lwfansau i bersonau a gynorthwyo gydag ymchwiliad | | | |
| Monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor â’u dyletswyddau o dan adran 52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000;<br><br>Cynghori hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy’n ymwneud â’r dyletswyddau hynny. | | Cynhaliwyd sesiwn briffio gyda Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ynglŷn a’r dyletswydd Newydd.<br><br>Cytunwyd Protocol ar gyfer gweithredu y dyletswydd. | |
| | | | |
| Ymarfer y swyddogaethau perthnasol uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned | | Cysylltodd y Swyddog Monitro gyda Arweinyddion cyn yr Etholiad i dynnu sylw at y dyletswydd a’r ymgynghoriad ar y canllawiau drafft.<br><br>Swyddog Monitro a’i dîm yn darparu cyngor ac | Angen ystyried adfer y rhaglen ar sail rhithiol pan mae adnoddau yn caniatáu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | arweiniad i gynghorau, clercod ac aelodau.<br><br>Cynhaliwyd Prosiect ymgysylltu sylweddol gan y Cadeirydd a'r Aelod Tref a Chymuned arweiniodd at adroddiad gyda argymhellion penodol a chynllun gwaith. | |

**ATODIAD 2/ APPENDIX 2**

| **Gwaith Pwyllgor Safonau 2023/2024** | **Standards Committee Work –2023/24** |
|---|---|
| **25 Mehefin 2023**<br><br>Adroddiad Blynyddol<br><br>Honiadau yn erbyn aelodau<br><br>Llyfr Achosion yr Ombwdsman<br><br>Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ymateb i Adroddiad Penn | **26 June 2023**<br><br>Annual Report<br><br>Allegations Against Members<br><br>Ombudsman's Code of Conduct Casebook<br><br>Consultation on the Welsh Government Response to the Penn Report. |
| **6Tachwedd 2023**<br><br>Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch<br><br>Cofrestr Datgan Buddiant<br><br>Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsman<br><br>Honiadau yn erbyn Aelodau<br><br>Adolygu gweithrediad Protocol Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol<br><br>Adolygu trefniadau datrysiad Mewnol<br><br>Derbyn adroddiad o Fforwm Safonau Cymru<br><br>Adroddiad ar y trefniadau ar gyfer delio gyda cyfathrebu wedi gwrandawiadau, | **6 November 2023**<br><br>Gifts and Hospitality Register<br><br>Declaration of Interest Registers<br><br>Ombudsman's Annual Report<br><br>Allegations Against Members<br><br>Review the operation of the Group Leaders Protocol<br><br>Review the internal resolution procedures<br><br>Receive report from the Wales Standards Forum<br><br>Report on the arrangements for dealing with communications post hearings |

| | |
|---|---|
| **19 Chwefror 2024**<br><br>Adroddiad Blynyddol y Panel Dyfarnu<br><br>Honiadau yn erbyn aelodau<br><br>Hunan Asesiad a Rhaglen Waith<br><br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor<br><br>. | **19 February 2024**<br><br>Annual Report of Adjudication Panel<br><br>Allegations against members<br><br>Self-Assessment and Work Programme<br><br>Annual Report of the Committee |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **26 Mehefin 2023** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022-23** |
| **Awdur :** | **Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Gweithredu :** | **Cynnig sylwadau a chymeradwyo'r adroddiad** |

**Cefndir**

1. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei waith a'i gyflwyno i'r Cyngor llawn. Penderfynodd y Pwyllgor y dylid gwneud hyn fel modd o godi proffil y Pwyllgor a hyrwyddo ei waith.

2. Diwygiwyd Deddf Llywodraeth Leol 2000 gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan ei gwneud yn ddyletswydd statudol bellach i bwyllgorau safonau adrodd i'w awdurdod. Rhaid gwneud hyn cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, mewn perthynas a'r flwyddyn honno (h.y. y cyfnod o 12 mis yn gorffen ar 31 Mawrth).

3. Rhaid i'r adroddiad ddisgrifio sut y mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi eu gweithredu yn ystod y flwyddyn, gan yn benodol gynnwys crynodeb o :

- Yr hyn sydd wedi'i wneud i gyflawni'r swyddogaethau cyffredinol a phenodol a roddwyd i'r pwyllgor gan Ddeddf 2000
- Adroddiadau ac argymhellion a wneir neu a gyfeirir at y pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Camau a gymerwyd gan y pwyllgor ar ôl iddo ystyried adroddiadau ac argymhellion o'r fath;
- hysbysiadau a roddir i'r pwyllgor gan Banel Dyfarnu Cymru

Rhaid i adroddiad gan bwyllgor safonau cyngor sir hefyd gynnwys:

- Asesiad y pwyllgor o'r graddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau newydd statudol mewn perthynas â safonau ymddygiad.

Gall yr adroddiad gynnwys:
- Argymhellion i'r awdurdod ynghylch unrhyw fater y mae gan y pwyllgor swyddogaethau mewn cysylltiad ag ef.

4. Rhaid i'r awdurdod ystyried pob adroddiad blynyddol a wneir gan ei bwyllgor safonau cyn diwedd 3 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r awdurdod yn derbyn yr adroddiad.

5. Atodir Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 i sylw'r Pwyllgor.

**Argymhelliad**

6. Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# PWYLLGOR SAFONAU
# CYNGOR GWYNEDD

# 2022 - 2023

# RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

Roedd hi'n fraint mawr i mi gael fy ethol yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Safonau ym mis Chwefror eleni. Hoffwn yn gyntaf gymryd y cyfle i ddiolch yn ddiffuant i fy rhagflaenydd yn y Gadair sef Dr Einir Young a roddodd wasanaeth ac arweiniad i'r Pwyllgor dros gyfnod o 10 mlynedd fel aelod. Hoffwn hefyd ddiolch i Margaret Jones am ei gwasanaeth yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Tra'n ffarwelio a nhw, roedd hi hefyd yn bleser croesawi aelod newydd i'r Pwyllgor sef Mark Jones.

Mae safonau mewn bywyd cyhoeddus yn bwnc sy'n cael cryn sylw ar hyn o bryd gan bwysleisio pwysigrwydd ymddygiad unigolion ar gyfer cynnal hyder y cyhoedd yn y modd y gwneir penderfyniadau ar eu rhan gan eu cynrychiolwyr etholedig. Rwyf yn hyderus y gall y pwyllgor hwn barhau i roi cymorth ac arweiniad i aelodau Cyngor Gwynedd ac aelodau'r cynghorau cymuned, tref a dinas o fewn y sir.

**Hywel Eifion Jones**
**Cadeirydd y Pwyllgor Safonau**

# RHAGAIR GAN Y SWYDDOG MONITRO

Mewn blwyddyn etholiad lleol, y ffocws oedd hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth o'r Cod Ymddygiad a'r safonau ymddygiad disgwyliedig. Mae'n arwydd cadarnhaol bod pob aelod wedi gallu manteisio ar y trefniadau anwytho i'r Cod Ymddygiad a bod llawer wedi mynychu'r cwrs mwy manwl dilynol. Y gobaith yw y bydd y flwyddyn i ddod yn caniatáu adnoddau a chapasiti i gynnal digwyddiadau eraill o'r fath.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi creu dyletswyddau newydd i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol gymryd elfen o gyfrifoldeb dros hyrwyddo ymddygiad da a chydweithredu â'r Pwyllgor Safonau. Mae'n gyfle cadarnhaol i gryfhau rhyngberthynas bwysig sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo a chefnogi ymddygiad da. Rhaid cyfaddef bod hon yn flwyddyn gychwynnol o fodolaeth y ddyletswydd sydd ei hangen arnom i ddatblygu'r agwedd newydd hon ar y fframwaith moesegol. Mae'r Pwyllgor Safonau wedi cytuno ar brotocol i fwrw ymlaen ag Arweinwyr y Grŵp ac rwy'n hyderus y bydd perthynas waith gadarnhaol yn datblygu,

Yn y pen draw, consensws ynghylch y math o Gyngor yr ydym yn ei weld a'i weithio ynddo sy'n cynrychioli'r sylfaen orau. Er bod yr adroddiad yn cynnwys achosion lle canfuwyd bod y Cod wedi'i dorri mae'n rhaid gosod hyn yng nghyd-destun nifer yr aelodau etholedig boed yn sir neu'n gymuned yng Ngwynedd. Mae hyn yn cefnogi canolbwyntio ein gwaith ar ymyriadau sy'n datblygu ac yn cynnal y safonau a ddisgwylir.

**Iwan Evans**
**Swyddog Monitro**
**Cyngor Gwynedd**

# CYFLWYNIAD

Sefydlwyd y Pwyllgor yn 2001 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd. Gwna hyn mewn sawl ffordd:

- Cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau.

- Cynghori'r awdurdod ar fabwysiadau neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau

- Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau

- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.

- Penderfynu ar gwynion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad.

- Ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am oddefebau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau, er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.

- Ystyried materion a gyfeirir ato dan drefn ddatrys cwynion lleol Cyngor Gwynedd

- Goruchwylio Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd .

**Adroddiad Blynyddol**

Diwygiwyd Deddf Llywodraeth Leol 2000 gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gan ei gwneud yn ddyletswydd statudol bellach i bwyllgorau safonau adrodd i'w awdurdod, cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, mewn perthynas a'r flwyddyn honno (h.y. y cyfnod o 12 mis yn gorffen ar 31 Mawrth).

Rhaid i'r adroddiad ddisgrifio sut y mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi eu gweithredu yn ystod y flwyddyn, gan yn benodol gynnwys crynodeb o :

- Yr hyn sydd wedi'i wneud i gyflawni'r swyddogaethau cyffredinol a phenodol a roddwyd i'r pwyllgor gan Ddeddf 2000

- Adroddiadau ac argymhellion a wneir neu a gyfeirir at y pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

- Camau a gymerwyd gan y pwyllgor ar ôl iddo ystyried adroddiadau ac argymhellion o'r fath;

- hysbysiadau a roddir i'r pwyllgor gan Banel Dyfarnu Cymru

Rhaid i adroddiad gan bwyllgor safonau cyngor sir hefyd gynnwys:

- Asesiad y pwyllgor o'r graddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau newydd statudol mewn perthynas â safonau ymddygiad.

Gall yr adroddiad gynnwys:

- Argymhellion i'r awdurdod ynghylch unrhyw fater y mae gan y pwyllgor swyddogaethau mewn cysylltiad ag ef.

Rhaid i'r awdurdod ystyried pob adroddiad blynyddol a wneir gan ei bwyllgor safonau cyn diwedd 3 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r awdurdod yn derbyn yr adroddiad.

# AELODAU’R PWYLLGOR

Er bod y Pwyllgor Safonau yn un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd, mae’n cynnwys mwyafrif o aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â’r Cyngor neu lywodraeth leol (‘Aelodau Annibynnol’). Mae hefyd yn cynnwys aelod sy’n cynrychioli buddiannau’r cynghorau cymuned (‘Aelod Pwyllgor Cymunedol’), yn ogystal â thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd. Rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor ddod o blith yr Aelodau Annibynnol.

## Aelodau Annibynnol

**Margaret E Jones (aelod 2012 - 2022)**

Er yn enedigol o Landrillo yn Rhos mae Margaret wedi treulio’r rhan fwyaf o’i hoes yn Chwilog. Bu’n dysgu yn Ysgol Abersoch am 32 o flynyddoedd, yn cynnwys 14 fel prifathrawes. Mae’n ddiacon yn Eglwys yr Annibynwyr Siloh, Chwilog, a bu’n Gadeirydd Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am 3 blynedd ac mae hi hefyd yn gyn Llywydd yr Undeb. Bu’n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Gwynedd ac yn Is-gadeirydd hyd at yr ad-drefnu yn 2010. Mae hi’n aelod gweithgar o Bwyllgor Eisteddfod Chwilog ac yng ngofal y Seremoni Cadeirio.

**Dr Einir Young (aelod 2012 -2022)**

Wedi ei geni yn y Rhondda a’i magu yn Llanelli a Chwmtwrch mae Einir wedi ymgartrefu yng Ngwynedd ers dros ddeg mlynedd ar hugain. Bu’n byw am gyfnod yng Nghaliffornia ac mae wedi teithio led led y byd yn enwedig i Affrica yn gweithio gyda chymunedau ymylol. Cymru fu canolbwynt ei gwaith am bymtheg mlynedd olaf ei gyrfa ond noda mai’r un yw’r heriau sy’n wynebu cymunedau - yr angen am weledigaeth hir dymor, sicrhau fod penderfyniadau’n cael eu gwneud er gwella neu’n atal pethau rhag mynd yn waeth, integreiddio ar draws cymunedau, cyd weithio ac efallai’n bwysicaf oll cynnwys pawb. Dyma’r union egwyddorion sydd i’w gweld yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol ac mae hi’n frwd dros hyrwyddo’r ffyrdd o weithio sy’n cael eu hannog gan y ddeddf yn y Cyngor a thu hwnt. Mae cynnal safonau yn elfen cyn bwysiced i gynaliadwyedd ag yw ail gylchu ac arbed ynni, ac mae hi’n falch o’r cyfle o gael bod yn rhan o Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd ac i’w gadeirio. Fe ymddeolodd Einir o’i swydd fel Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Prifysgol Bangor ddiwedd Rhagfyr 2020 ond mae’n parhau i weithio yn rhan amser ar broject Ecoamgueddfa Pen Llŷn. Mae hi’n un o Gyfarwyddwyr Ynni Llŷn ac Ynni Cymunedol Cymru ac yn un o is-gadeiryddion yr Academi Heddwch. Yn ei hamser hamdden mae Einir yn mwynhau cerdded gyda’i chwaer a’r ci ar hyd llwybrau hir megis Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr y Pererinion a Llwybr Llechi Eryri.

**David Wareing (aelod ers 2015)**

Symudodd David o Swydd Gaerhirfryn i'r Groeslon yn 2014 yn dilyn ei ymddeoliad o Heddlu Glannau Mersi. Gwasanaethodd am 26 mlynedd mewn amrywiaeth o rolau, yn fwyaf diweddar yn Adran Weithredol yr Heddlu yn y Pencadlys. Yn y swydd hon roedd yn cynllunio digwyddiadau cyhoeddus mawr, diogelwch y cyhoedd yn ystod gweithrediadau gan yr Heddlu a lleihau cymorth yr heddlu i asiantaethau allanol drwy fwy  o weithio mewn partneriaeth. Roedd yn arbenigo mewn asesu risg a sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Cynrychiolodd David Heddlu Glannau Mersi ar bob un o'r pum Grŵp Ymgynghorol Diogelwch o fewn yr ardal honno. Mae'n credu'n gryf bod yn rhaid i weithredoedd y rhai sydd mewn swyddi cyhoeddus fod yn dryloyw ac yn atebol.

**Aled Jones (aelod ers 2016)**

Brodor o Lanbedr Pont Steffan, Ceredigion yn wreiddiol yw Aled. Astudiodd radd mewn Cymraeg a Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ar ôl graddio ym 1999, symudodd i Gaernarfon i weithio gyda chwmni cyfieithu Cymen a daeth yn gydberchennog ar y cwmni yn 2007. Bellach mae'n cyflogi tîm o 20 aelod staff a dros 15 o gyfieithwyr llawrydd eraill. Mae'n byw ym Mangor gyda Tegwen a'r plant, Cai a Beca. Mae'n mwynhau pob math o chwaraeon a chaiff ei weld yn aml yn cefnogi Clwb Rygbi Bethesda a Chlwb Pêl-droed Dinas Bangor. Yn rhinwedd ei swydd fel cyfieithydd ar y pryd, mae ganddo brofiad helaeth o fynychu cyfarfodydd ar bob lefel o lywodraethiant felly mae mewn sefyllfa dda i arsylwi ar ymddygiad a safonau gan adnabod yr arferion gorau.

**Hywel Eifion Jones (aelod ers 2019)**

Wedi'i eni a'i addysgu yn Nyffryn Clwyd, roedd Eifion yn uwch reolwr gyda Banc Barclays yn gwasanaethu 34 mlynedd mewn nifer o ganghennau ledled Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mae wedi ymgymryd â llawer o swyddogaethau gwasanaeth cyhoeddus gan gynnwys Cynghorydd Sir gyda Chyngor Ynys Mon ac aelod o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru. Ar hyn o bryd mae'n Ynad ar fainc Gogledd Orllewin Cymru, yn aelod o Fyrddau Pensiwn Gwynedd, Betsi Cadwaladr ac Adra. Mae hefyd yn aelod o Banel Dyfarnu Cymru sy'n penderfynu honiadau o dorri'r cod ymddygiad gan aelodau etholedig Cynghorau Sir a Chymuned.

**Mark Jones (aelod ers Rhagfyr 2022)**

Mae Mark yn byw ym Mangor ac yn gyn swyddog heddlu gyda 30 mlynedd o brofiad mewn amrywiaeth o rolau, gan gynnwys fel Pennaeth Safonau Proffesiynol Heddlu Gogledd Cymru. Gwasanaethodd fel Llywodraethwr Cymunedol ac Is-gadeirydd yn Ysgol Glanadda am 20 mlynedd. Mae hefyd yn gyn-Gadeirydd Adra, lle mae'n parhau i wasanaethu fel aelod o'r Bwrdd.

## Aelod Pwyllgor Cymunedol

**Cynghorydd Richard Parry Hughes (aelod ers 2017)**

Magwyd Richard ar fferm yn Llanaelhaearn ac aeth i Ysgol Ramadeg Pwllheli, Coleg Amaethyddol Glynllifon ,a Choleg Seale Hayne (Prifysgol Plymouth) . Mae ganddo ôl radd mewn Rheolaeth Fferm. Bu yn gweithio i bartneriaeth filfeddygon yn Chwilog am dair blynedd ac yn ddarlithydd rhan amser yng Ngholeg Glynllifon, cyn prynu fferm Penfras Uchaf Llwyndyrys lle bu ei deulu yn denantiaid arni am dros dri chan mlynedd. Mae'n briod ac Eleri ac mae ganddynt dri mab. Yn gyn arweinydd Cyngor Gwynedd, mae yn dal i ffermio. Mae ganddo brofiad helaeth o bwyllgorau gan ddal swyddi fel cadeirydd Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru cyn ymgymryd â chael ei ethol fel aelod o gyrff cyhoeddus. Bu yn aelod o Gyngor Sir Gwynedd o 1992 hyd 1996 ac yn aelod o Gyngor Gwynedd o 1996 i 2008. Bu'n arwain Cyngor Gwynedd o 2003 i 2008 a hefyd yn lefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar yr Amgylchedd a Chynllunio yn ystod y cyfnod yma. Mae'n aelod brwd o Gwmni Drama Llwyndyrys a chefnogwr amryw o gymdeithasau eraill lleol megis, Antur Aelhaearn a Chyfeillion Eglwys Carnguwch. Mae'n gweithio'n wirfoddol fel gweithiwr achos i'r Farm Community Network . Mae'n aelod o Gyngor Cymuned Llannor ers 1992.

## Aelodau Cyngor Gwynedd

**Cynghorydd Beth Lawton (aelod ers 2017)**

Mae Beth yn byw ym Mryncrug ac yn berchen ffatri leol. Mae'n Gynghorydd Sir dros ardal Bryncrug/Llanfihangel sydd yn cynnwys pentre' Bryncrug ac Abergynolwyn. Mae hefyd yn Gynghorydd Cymuned ac yn gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn. Mae'n weithgar ar sawl pwyllgor yn y gymuned yn cynnwys Carnifal Abergynolwyn, Ffair Wledig Bryncrug, Pwyllgor Apêl Ysbyty Tywyn a llawer eraill. Mae'n Is- gadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal Cyngor Gwynedd ac yn gyfarwyddwr ar y cwmni hamdden newydd .

**Cynghorydd Anne Lloyd-Jones (aelod ers 2017)**

Mae Anne yn byw ac yn rhedeg busnes twristiaeth fferm yn Nhywyn, ac mae wedi cynrychioli Tywyn ar Gyngor Gwynedd ers 1995 a chyn hynny roedd yn aelod o Gyngor Dosbarth Meirionnydd am wyth mlynedd. Etholwyd hi'n gyntaf fel aelod o Gyngor Tref Tywyn yn 1985 a hi oedd Faeres gyntaf yn 1991, ac eto yn 2004, ac roedd yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd yn 2009. Mae hi'n gyn-gadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd ac yn un o aelodau gwreiddiol Bwrdd Rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Roedd hi'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Meirionnydd, ac yn Gadeirydd presennol Cronfa Apêl Ysbyty Tywyn a'r Cylch.

Mae hi'n aelod ac yn gyn-gadeirydd Ysgol Penybryn ac yn aelod ar gorff Llywodraethol Ysgol Uwchradd Tywyn.

Roedd Anne yn Gadeirydd Twristiaeth Canolbarth Cymru rhwng 2001-2016, yn aelod sefydliadol ac yn gyn-lywydd a Thrysorydd Clwb Inner Wheel Tywyn a bu'n Drysorydd cangen leol yr NSPCC ers 1989.

Mae Anne yn briod â John ac mae ganddyn nhw dair merch a dwy wyres sy'n efeilliaid.

**Cynghorydd Dewi Owen (aelod ers 2022)**

[manylion i ddilyn]

## Y Swyddog Monitro

Mae Swyddog Monitro'r Cyngor, Iwan Evans, ynghyd a swyddogion o'r Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Democrataidd yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau yn ei waith. Mae gan y Swyddog Monitro rôl statudol i sicrhau bod y Cyngor, ei aelodau a'i swyddogion yn gweithredu yn briodol ac yn gyfreithlon.

**Manylion Cyswllt**

- Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro. E-bost: IwanGDEvans@gwynedd.llyw.cymru Ffôn (01286) 679015
- Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau a Dirprwy Swyddog Monitro. E-bost: sionhuws@gwynedd.llyw.cymru Ffôn: (01286) 679168

# GWAITH Y PWYLLGOR YN YSTOD 2022 - 2023

Mae gwaith y Pwyllgor wedi cynnwys y canlynol dros y flwyddyn (ceir rhaglen waith lawn y Pwyllgor yn yr **Atodiad 1**):

## Achosion fu gerbron y Pwyllgor

Cyfeiriwyd un gŵyn o dorri'r Cod Ymddygiad at y Pwyllgor am benderfyniad yn ystod y flwyddyn ond ni ystyriwyd y gŵyn tan Ebrill 2023.

## Cwynion eraill

Hysbysir y Pwyllgor hefyd o benderfyniadau'r Ombwdsmon ar y cwynion hynny na chyfeirir at y Pwyllgor am benderfyniad, a cheir crynodebau ohonynt yn **Atodiad 2.**

## Goddefebau

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn darparu na all cynghorydd gymryd rhan mewn trafodaeth os oes ganddo/i 'fuddiant sy'n rhagfarnu'. Serch hynny mae gan aelod yr hawl i wneud cais i'r Pwyllgor am ganiatâd i gymryd rhan er bod ganddo/i'r buddiant yma, h.y. goddefiad.

- Ni chyflwynwyd un cais am oddefeb i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

## Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru

Mae Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn rhoi'r cyfle i gynrychiolwyr o holl bwyllgorau safonau awdurdodau'r gogledd gyfarfod. Pwrpas y fforwm yw galluogi pwyllgorau safonau'r ardal i drafod a rhannu syniadau, arferion da ac adnoddau, a hefyd gyflwyno barn ar y cyd ar y lefel genedlaethol. Mynychir cyfarfodydd y Fforwm gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor. Erbyn hyn mae Pwyllgorau Safonau Ceredigion a Phowys wedi ymuno â'r Fforwm.

## Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol Cymru

Comisiynwyd Richard Penn gan Lywodraeth Cymru i edrych ar y Cod Ymddygiad, sut mae'n cael ei orfodi, sut y cyflawnir hyfforddiant a phob dull arall i sicrhau safonau uchel o ymddygiad moesegol. Cyflwynodd ei adroddiad yn Nhachwedd 2021, lle roedd yn gwneud sylwadau cadarnhaol ar waith y fforwm ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru.

Er ei fod yn cydnabod y lle ar gyfer gwneud penderfyniadau lleol, argymhellodd sefydlu Fforwm Cenedlaethol ar hyd yr un llinellau. Bydd y fforwm yn

a) rhoi cyfle i gadeiriau rannu a chytuno i gydlynu ymarfer;
b) gweithredu fel bwrdd bachog am syniadau;
c) creu rhwydwaith cymorth ar gyfer cadeiryddion a Phwyllgorau.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r Fforwm Genedlaethol ar 27 Ionawr 2023 drwy Zoom. Roedd Cadeiryddion neu Is-gadeiryddion holl Bwyllgorau Safonau Cymru yn bresennol gyda nifer o Swyddogion Monitro, Llywodraeth Cymru (LlC) a swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

## Cefnogaeth i Aelodau Cynghorau Cymuned , Tref a Dinas

Cynhaliodd y pwyllgor broses o ymgynghori, drwy'r Cadeirydd a'r Aelod Pwyllgor Cymunedol, gyda detholiad o glercod cynghorau tref a chymuned. Y bwriad oedd cael dealltwriaeth o'r materion penodol hynny oedd yn medru creu problemau o safbwynt ymddygiad aelodau i alluogi'r Pwyllgor i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau hynny sydd ar gael yn yr awdurdod.

Penderfynwyd ar Gynllun Gweithredu, sy'n cynnwys y 3 elfen o gefnogaeth y gellir ei gynnig i aelodau a chlercod cynghorau cymuned ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad:

1. **Cyngor ar faterion penodol** - Parhau i gysylltu gyda'r Swyddog Monitro neu'r Dirprwy Swyddog Monitro.

2. **Gwefan Cyngor Gwynedd** - Tudalen Pwyllgor Safonau i gynnwys mwy o wybodaeth a chanllawiau yn ogystal â dolenni i wefannau eraill defnyddiol.

3.**Hyfforddiant** - Cynnal sesiwn hyfforddiant rhithiol ar ffurf 'webinar'. Byddai hyn yn creu adnodd y gallai aelodau ei wylio pan yn gyfleus iddynt yn hytrach na gorfod dibynnu ar sesiynau mewn mannau ac ar amseroedd penodol.

## Dyletswydd Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol

Darparwyd cyflwyniad ar y dyletswydd newydd gan y Swyddog Monitro ynghŷd â sesiwn drafod ar y cyd gyda bob un o'r Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol, a Chadeirydd ac Is Gadeirydd y Pwyllgor Safonau ar y 18 fed o Hydref 2022. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys esboniad o'r dyletswyddau newydd a thrafodaeth ar sut y gellir gweithredu'r dyletswydd newydd a chyd weithio gyda'r Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro. Cafwyd cytundeb ar Brotocol Drafft ar gyfer gweithredu'r dyletswydd i'r dyfodol . Yn ei gyfarfod ar 21 Tachwedd cymeradwywyd y Protocol i gefnogi'r dyletswydd gan y Pwyllgor Safonau.

Mae'r arweinyddion Grwpiau yn ymwybodol o'r dyletswydd sydd yn gosod gofyn arnynt ac wedi adrodd ar y camau cychwynnol sydd wedi eu cymryd i ymdrin â'r

ddyletswydd. Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Swyddog Monitro a'r Arweinyddion i drafod y dyletswydd ac mae adroddiad gan yr arweinyddion yn adlewyrchu'r camau cychwynnol yma. Roed y lefel presenoldeb mewn digwyddiadau anwytho Cod Ymddygiad hefyd yn adlewyrchu'r ymrwymiad yma,

Mae'r Pwyllgor Safonau yn gallu cadarnhau bod Arweinwyr Grwpiau yn ystod 2022-2023 wedi bod yn cyflawni eu dyletswydd.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud drwy gydol 2023-2024 i fireinio ymhellach sut mae Arweinwyr Grwpiau yn gallu cyflawni eu dyletswyddau a sut y gall y Pwyllgor Safonau gynorthwyo ymhellach Arweinwyr

**Atodiad 1**

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU 2022-2023

**11 GORFFENNAF 2022**

- Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd
- Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn
- Hunan asesiad y pwyllgor o'i berfformiad yn 2021/22.
- Cymeradwyo ei Raglen Waith ar Gyfer 2022/23
- Derbyn adroddiad rheolaidd ar honiadau yn erbyn aelodau

**21 TACHWEDD 2022**

- Fforwm Cenedlaethol Pwyllgorau Safonau:
  - Cytuno ar y Cylch Gorchwyl drafft, gan gynnwys cynrychiolaeth.
  - Cymeradwyo'r trefniadau arfaethedig i gefnogi'r Fforwm Cenedlaethol.
- Cymeradwyo Protocol Dyletswyddau Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol a'r Pwyllgor Safonau i'w arwyddo gan Gadeirydd y Pwyllgor a'r Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol.
- Ymgynghoriad y Pwyllgor gyda detholiad o glercod cynghorau tref a chymuned ynglŷn â'r fframwaith safonau:
  - Derbyn yr adroddiad a gofyn i'r Swyddog Monitro a'r Aelod Pwyllgor Cymunedol baratoi cynllun gweithredu sy'n adlewyrchu'r hyn sydd yn yr adroddiad
- Derbyn adroddiad rheolaidd ar honiadau yn erbyn aelodau

**13 CHWEFROR 2023**

- Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd

- Cymeradwyo Cynllun Gweithredu ar y gefnogaeth y gellir ei gynnig i aelodau a chlercod cynghorau cymuned ar faterion yn ymwneud â’r Cod Ymddygiad

- Derbyn adroddiad ar y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch

- Derbyn adroddiad ar  Fforwm Cenedlaethol Pwyllgorau Safonau

- Ystyried Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2021/22

- Ystyried Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2021/22

- Derbyn adroddiad rheolaidd ar honiadau yn erbyn aelodau

- Ystyried adroddiad yr Ombwdsmon ar ymchwiliad i gŵyn yn erbyn cynghorydd, a dod i benderfyniad os oedd angen bwrw ymlaen i gynnal gwrandawiad llawn.

**Atodiad 2**

**Hysbyswyd y Pwyllgor o'r penderfyniadau canlynol gan yr Ombwdsmon ar honiadau o dorri'r cod ymddygiad yn erbyn cynghorwyr sirol a chynghorwyr cymuned a thref Gwynedd:**



| Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad | Penderfyniad yr Ombwdsmon |
|---|---|
| **Cwyn Rhif 202005528**<br><br>Bod cynghorydd tref wedi torri'r Cod:<br><br>• wrth wneud honiadau ffug o wariant anawdurdodedig a chamddefnyddio arian gan y cyn Glerc<br><br>• drwy danseilio a dilorni'r Cyn-Glerc mewn cyfarfodydd, cyhuddo aelodau eraill o ddweud celwydd a chydgynllwynio gyda'r Cyn Glerc mewn gweithgaredd anghyfreithlon, ac wedi targedu unrhyw aelod oedd yn cefnogi'r Cyn Glerc mewn ymgais i'w dychryn ac i ddwyn anfri ar y Cyn Glerc. | Dirwyn yr ymchwiliad i ben<br><br>Dechreuwyd ymchwiliad oherwydd bod y gŵyn yn bodloni dau gam y prawf 2 gam ar sail y wybodaeth a ddarparwyd yn y gŵyn.<br><br>Gan nad oedd yr Achwynydd wedi dychwelyd ei ddatganiad tyst, ac nad oedd y cynghorydd bellach yn aelod nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn y byddai er budd y cyhoedd i adnoddau gael eu defnyddio i barhau a chwblhau'r ymchwiliad. |

| | |
|---|---|
| **Cwyn Rhif 202004473**<br><br>Cwyn bod aelod wedi rhannu deunydd ar ei gyfrif Facebook a oedd yn taflu amheuaeth ar fodolaeth COVID-19 ac am y brechlyn, a phan ymddangosodd ar sioe deledu i drafod ei farn am COVID-19 a'r brechlyn. | Canfu'r Ombwdsmon fod gan yr Aelod hawl i ryddid mynegiant ac i ddal a mynegi ei farn o dan Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.<br><br>Roedd tystiolaeth yn awgrymu nad oedd yr Aelod yn cynrychioli 'safbwynt y Cyngor'. Ni roddodd yr Aelod gyfarwyddiadau i aelodau'r cyhoedd yn groes i'r mesurau iechyd cyhoeddus a oedd ar waith ar y pryd. Felly, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad. |
| **Cwyn Rhif 202200859**<br><br>Cwyn bod cynghorydd tref wedi torri'r Cod fel a ganlyn:<br><br>1. Y gallai'r aelod fod wedi cyflawni twyll etholiadol gan ei bod wedi brolio am gofrestru ei mab ar y gofrestr etholiadol pan oedd hefyd wedi'i gofrestru mewn ardal arall.<br><br>2. Bod yr aelod yn anurddasol wrth eistedd ar risiau'r orsaf bleidleisio yn rhwystro pobl rhag mynd i mewn heb orfod ceisio mynd heibio iddi.<br><br>3. Bod yr aelod wedi defnyddio ei thudalen Facebook i gynnal ymgyrch casineb yn ei erbyn. | Dim ymchwiliad:<br><br>1. Nid oedd yr achwynydd wedi darparu digon o dystiolaeth i gadarnhau ei gŵyn. Mae pryderon am dwyll etholiadol yn fater i'r Heddlu.<br><br>2. Nid oedd y toriad honedig o'r Cod yn ddigon difrifol i warantu ymchwiliad er budd y cyhoedd.<br><br>3.Nid oedd yr achwynydd wedi darparu tystiolaeth o'r sylwadau Facebook y cyfeiriodd atynt ac felly nid oedd wedi darparu digon o dystiolaeth i gadarnhau ei gŵyn. |

| | |
|---|---|
| **Cwyn Rhif 202205952**<br>Honnwyd bod aelod cyngor tref wedi ymgymryd ag ymgyrch gasineb parhaus ar gyfryngau cymdeithasol yn erbyn yr achwynydd ers 2017. | Dywedodd yr achwynydd bod brawd yr Aelod wedi ei fygwth oherwydd ei fod wedi ysgrifennu at y Cyngor, ac mae hyn wedi ei gyfarch gan yr Heddlu. Roedd yr achwynydd yn dweud bod eraill wedi bod yn dyst i'r ymddygiad, ond nid yw wedi nodi beth oedd wedi ei dystio, nac wedi darparu datganiadau. Felly, ni allaf ystyried, hyd yn oed pe bai wedi'i brofi, a fyddai'r ymddygiad gyfystyr â thorri Cod Ymddygiad. Mae hefyd yn werth nodi bod y tystion honedig yn gysylltiedig â'r cyngor ac yn ymwybodol o broses y Cod Ymddygiad. Mae'n agored i iddynt wneud cwyn os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny. |



| **Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei (h)erbyn** | |
|---|---|
| Aelod o gyngor cymuned | 3 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd | 1 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd a chyngor cymuned | |
| **Natur yr achwynydd** | |
| Cynghorydd | 1 |
| Aelod o'r cyhoedd | 2 |
| Swyddog | 1 |
| **Natur yr honiad** | |
| Ymddygiad cyffredinol | 4 |
| Datgan Buddiant | |
| Ymddygiad cyffredinol a Datgan Buddiant | |

| **Canlyniad** | |
|---|---|
| Dim ymchwiliad | 2 |
| Ymchwiliad – dim tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad | 1 |
| Ymchwiliad –dim camau pellach | |
| Ymchwiliad – cyfeiriad at y Pwyllgor Safonau | 1 |
| Ymchwiliad – cyfeiriad at Banel Dyfarnu Cymru | |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **26 Mehefin 2023** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**2. Penderfyniadau**

2.1 Ni dderbyniwyd unrhyw benderfyniadau wrth yr Ombwdsmon ers yr adroddiad diwethaf.

2.1 Penderfynodd y Pwyllgor Safonau ar gŵyn gyfeiriwyd ato gan yr Ombwdsmon ers yr adroddiad diwethaf. Mae adroddiad penodol ar ganlyniad y gŵyn honno ger bron y Pwyllgor heddiw.

**3. Dadansoddiad o'r Cwynion**

Isod ceir dadansoddiad o natur y cwynion y cafwyd penderfyniad arnynt hyd yn hyn eleni (2022/23):

| **Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei (h)erbyn** | |
|---|---|
| Aelod o gyngor cymuned | 3 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd | 1 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd a chyngor cymuned | |
| **Natur yr achwynydd** | |
| Cynghorydd | 1 |
| Aelod o'r cyhoedd | 2 |
| Swyddog | 1 |
| **Natur yr honiad** | |
| Ymddygiad cyffredinol | 4 |
| Datgan Buddiant | |
| Ymddygiad cyffredinol a Datgan Buddiant | |
| **Canlyniad** | |
| Dim ymchwiliad | 2 |
| Ymchwiliad – dim tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad | 1 |
| Ymchwiliad –dim camau pellach | |
| Ymchwiliad wedi ei ddirwyn i ben | 1 |

| | |
|---|---|
| Ymchwiliad – cyfeiriad at y Pwyllgor Safonau | 1 |
| Ymchwiliad – cyfeiriad at Banel Dyfarnu Cymru | |

**4. Achosion Agored**

4.1 Mae'r sefyllfa o safbwynt achosion eraill fel a ganlyn:

- **Ombwdsmon yn ystyried os dylai ymchwilio** **0**
- **Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad** **3**
- **Wedi eu cyfeirio at y Pwyllgor Safonau** **0**
- **Wedi eu cyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru** **0**

**5. Argymhelliad**

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth